

FFEDERASIWN HYFFORDDIANT
CENEDLAETHOL CYMRU

NTFW
NATIONAL TRAINING
FEDERATION WALES

**Arferion Da wrth Ddarparu Cymwysterau Galwedigaethol
yn Ddwyieithog a Thrwy Gyfrwng y Gymraeg
Llawlyfr ar gyfer Darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith**



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Cynnwys

Rhagair

Cyflwyniad

Cyflwyniad	4
Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon	5

Cynnwys Dysgwyr

Addysg Flaenorol Cyfrwng Cymraeg	6
Cyfnod Cynefino'r Dysgwyr	8
Hyfforddiant Ymwybyddiaeth/laith Gymraeg	9
Paru Darpariaeth	12
Adolygiadau	13
Geiriau a Thermau Cymraeg	14
Diwylliant Cymru	17
Y Cyfryngau Cymdeithasol a Thechnoleg	18
Cyfathrebu	20
Cyhoeddiadau	21
Apiau Cymraeg	21
Cystadlaethau/Mentrau	22

Ymgysylltu â'r Staff

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Hyfforddiant laith	23
Defnyddio Technoleg	26
Dulliau o Gefnogi'r Staff	27
Geiriau a Thermau Cymraeg	28
Recriwtio a Chadw Staff	28

Ymgysylltu â Chyflogwyr

Arferion Da

Cyfathrebu Mewnol	31
Cyfathrebu Allanol	31
Brandio a Delwedd	33
Comisiynydd y Gymraeg	34
Cydweithio	34
Rheoli Data	36
Cyfranogiad Cymunedol	38

Lefel Consortiwm

Astudiaethau Achos

Cysylltu â Disgyblion o Ysgolion Cyfrwng Cymraeg (Coleg Sir Benfro)	42
Partneriaeth ag Ysgolion Cyfrwng Cymraeg (Educ8)	43
My Welsh Culture Hub (Acorn Learning Solutions)	44
Paru Dysgwyr ac Aseswyr (Coleg Cambria)	45
Canfod Lleoliadau Cymraeg (Aspiration Training (VSP))	46
Canfod Lleoliadau Cymraeg (ACT Training)	47
Cyfleoedd Dwyieithog yn y Dosbarth (Aspiration Training)	48
Cystadlaethau (Prentisiaethau Coleg Caerdydd a'r Fro)	50
Ymgysylltu â'r Staff (ISA Training)	52
Ymgysylltu â Chyflogwyr (Grŵp Llandrillo Menai)	53
Hyrwyddwr Dwyieithrwydd Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW)	55

Adnoddau

Gwefannau Defnyddiol	56
Adnoddau Ar-lein	56
Cyfryngau Cymdeithasol	56
Cyfrifon yr awgrymir eich bod yn eu dilyn	56
Ffurflenni	56
Termau	57
Llyfrynnau	57
Cystadlaethau a Gêmau	57

Rhagair

Mae'r ddogfen hon wedi'i chreu gan Hyrwyddwr Dwyieithrwydd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW), ac mae wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru.

Pwrpas y ddogfen yw rhannu enghreifftiau o arferion da yn y sector Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) wrth annog dysgwyr i barhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Y nod yn y pen draw yw sicrhau gweithlu dwyieithog er budd dyfodol Cymru.

Mae'r ddogfen ar gael i bawb sy'n darparu DSW yng Nghymru. Mae'n cynnwys esboniadau o'r hyn a gyfrifir yn arferion da ac enghreifftiau o blith y rhwydwaith darparwyr.

Mae'n dda gweld nad dim ond yn yr ardaloedd a gyfrifir yn fröydd Cymraeg (Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin) y gwelir arferion da ond ledled Cymru.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'r holl ddarparwyr a roddodd o'u hamser gwerthfawr i gyfrannu at yr Astudiaethau Achos ac i roi enghreifftiau o'r hyn y maent yn ei wneud i gefnogi dwyieithrwydd yn eu darpariaeth; ac am sicrhau bod yr adnodd hwn wedi gweld golau dydd.

Y nod yw adeiladu ar yr adnodd hwn yn y dyfodol fel y gall hybu datblygiad a phoblogrwydd cymwysterau galwedigaethol Cymraeg a dwyieithog yng Nghymru. Os oes gennych arferion da yr hoffech eu rhannu gyda'r rhwydwaith o ddarparwyr DSW, mae croeso i chi gysylltu â Hyrwyddwr Dwyieithrwydd DSW NTfW.

Ryan Evans

Hyrwyddwr Dwyieithrwydd DSW

(Defnyddir y gair "dysgwr" yn y ddogfen hon i olygu unrhyw un sy'n dilyn cwrs yn y sefydliadau y cyfeirir atynt, ac nid yw'n cyfeirio at bobl sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith yn unig).

Cyflwyniad

Yn Saesneg yn bennaf y mae prentisiaethau a chymwysterau eraill Dysgu Seiliedig ar Waith wedi'u cyflawni erioed. Prin oedd y cymwysterau (neu'r rhannau o gymwysterau) a gyflawnwyd yn y Gymraeg. Gwaetha'r modd, roedd pobl yn cymryd yn ganiataol nad oedd y cymwysterau ar gael yn y Gymraeg ac nid oedd digon o wybodaeth ar gael pan oeddent.

Bu llawer o ddysgwyr o dan yr argraff hefyd mai Saesneg, yn bennaf, oedd iaith gweithleoedd ac y byddai'n rhaid iddynt wneud eu cymwysterau ôl-16 yn Saesneg er mwyn llwyddo mewn gwaith. Yn ogystal, efallai bod llawer o ddysgwyr yn teimlo iddynt gael eu gorfodi i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol a, phan gawsent y cyfle i ddewis ym mha iaith yr oeddent am ddysgu, byddent yn dewis Saesneg. Roedd hyn yn arbennig o wir os mai ychydig o brofiad oedd ganddynt o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol am fod siaradwyr Cymraeg yn prinhaus yn y gymuned.

Gan mai ychydig o alw oedd am gyrsiau ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg, bu'r rhwydwaith darparwyr DSW a'r Sefydliadau Dyfarnu yn canolbwyntio ar ddarpariaeth Saesneg.

Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r rhwydwaith darparwyr hyfforddiant DSW yn awr i annog rhagor o bobl i ddilyn Prentisiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog fel y bydd gweithlu Cymru'n ddwyieithog yn y dyfodol, ac yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae [Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg](#) Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gweledigaeth y Llywodraeth o gael system addysg a hyfforddiant sy'n galluogi mwy a mwy o ddisgyblion a dysgwyr i ddilyn eu hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Strategaeth yn cynnwys targedau penodol i gynyddu'r ddarpariaeth gyfrwng Gymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.

Yn ogystal, comisiynodd Llywodraeth Cymru adroddiad ar y galw presennol a'r [galw a ddisgwylir am sgiliau Cymraeg gan gyflogwyr mewn wyth sector](#) allweddol yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn wedi amlygu y meysydd y mae angen eu datblygu ym myd hyfforddiant ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg.

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Mae'r arferion isod yn cael eu cyfrif yn arferion da a/neu yn arferion gorau ar draws y rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant dysgu seiliedig ar waith (DSW). Gall pob darparwr hyfforddiant ledled Cymru ddefnyddio syniadau o'r ddogfen hon gyda'r nod o wella'u darpariaeth ddwyieithog, a sicrhau bod rhagor o bobl yn eu sefydliad yn gwneud Prentisiaeth yn ddwyieithog.

Mae'r arferion da wedi'u trefnu o dan yr is-benawdau isod:

- Cynnwys Dysgwyr
- Ymgysylltu â'r Staff
- Ymgysylltu â Chyflogwyr
- Arferion Da ar gyfer Sefydliadau
- Arferion Da ar Lefel Consortiwm

Gan fod hon yn ddogfen ryngweithiol, gallwch symud trwy'r ddogfen yn hawdd trwy glicio botwm.

Mae dolenni i'r gwahanol dudalennau o'r dudalen gynnwys.

Ym mhennyn pob tudalen gellir clicio'n hawdd i brif bynciau'r ddogfen. Mae hyn yn golygu nad oes angen sgrolio i lawr trwy'r ddogfen i ganfod yr hyn rydych yn chwilio amdano.

Cynnwys Dysgwyr

Mae'r arferion hyn yn ymwneud â darparwyr yn defnyddio prosesau ac yn cymryd camau a fydd yn galluogi dysgwyr i wneud dewisiadau mwy gwybodus am iaith eu haddysg ôl-16. Gellir gweithredu rhai o'r arferion hyn yn hawdd ac yn sydyn ond bydd angen rhagor o amser ac ymdrech ar gyfer rhai eraill.

Addysg Flaenrol Cyfrwng Cymraeg

Targeddu Dysgwyr o Ysgolion Cyfrwng Cymraeg

Mae rhai darparwyr yn targedu dysgwyr sy'n nodi iddynt eu bod nhw wedi astudio mewn ysgol Gymraeg neu ddwyieithog er mwyn sôn am fanteision parhau â'u haddysg ôl-16 i gyd neu ran ohoni trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan y dysgwyr hyn y sgiliau angenrheidiol yn y Gymraeg i gwblhau cyfran sylweddol o'u dysgu trwy gyfrwng yr iaith.

- Mae Coleg Sir Benfro wedi annog dysgwraig i ddilyn ei chymhwyster cyfan trwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl cael ymateb cadarnhaol. [EWCH I'R ASTUDIAETH ACHOS ▶](#)
- Mae Coleg Cambria wedi ysgrifennu at yr holl ddysgwyr a fu mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg i gynnig y cyfle iddynt ddysgu yn y Gymraeg. Mae ychydig o'r dysgwyr wedi derbyn y cynnig.
- Mae LLETS, Dinas a Sir Abertawe yn cydweithio ag ysgolion Cymraeg yn yr ardal ac yn cynnal cyfweiliadau gyda dysgwyr yn y Gymraeg. Mae LLETS yn helpu Gyrfa Cymru i baratoi dysgwyr o flynyddoedd 10-13 ar gyfer cyfweiliadau i fynd i'r coleg neu i gael gwaith. Mae llawer o ddysgwyr o ysgolion Cymraeg yn cael cyfweiliadau Cymraeg.

Partneriaeth ag Ysgolion Cyfrwng Cymraeg

Er mwyn annog rhagor o bobl i ddilyn cyrsiau Cymraeg/dwyieithog mewn DSW, mae rhai darparwyr yn ymweld ag ysgolion Cymraeg i sôn am fanteision parhau â'r Gymraeg fel rhan o'u hyfforddiant er mwyn cael gwell cyfleoedd gwaith.

- Mae ISA Training yn cydweithio ag ysgolion lleol i ddarparu cyrsiau ôl-14 trwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai hynny, yn ei dro, annog dysgwyr i barhau â'u cymwysterau dysgu seiliedig ar waith ôl-16 yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- Mae Hyfforddiant Torfaen yn cyfathrebu'n aml ag Ysgol Gyfun Gwynllyw i wella'r cyfleoedd ar gyfer y rhai sy'n gadael yr ysgol. Erbyn hyn, mae gan Hyfforddiant Torfaen le yn yr ysgol lle gall dysgwyr siarad â chynghorwyr hyfforddiant yn rheolaidd.
- Mae Educ8 yn cefnogi'r ysgol Gymraeg leol trwy gynnal cyfweiliadau gyda'r disgyblion i'w paratoi ar gyfer addysg bellach neu addysg uwch. [EWCH I'R ASTUDIAETH ACHOS ▶](#)

Cofrestru Awtomatig

Mae rhai darparwyr sy'n gallu cynnig llwybrau neilltuoel trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cyflwyno trefn lle mae'r dysgwyr yn cael eu cofrestru'n awtomatig i ddilyn y cwrs yn y Gymraeg os ydynt yn dod o ysgol Gymraeg. Yna, mae'n rhaid i'r dysgwr optio allan i ddilyn y cwrs trwy'r Saesneg neu i drafod darpariaeth ddwyieithog.

- Mae Coleg Sir Gâr yn gweithio yn un o'r bröydd Cymraeg ac mae ganddo drefn lle mae disgyblion o ysgolion Cymraeg yn cael eu Cofrestru'n Awtomatig ar gyrsiau cyfrwng Cymraeg (mewn sectorau lle mae gan y coleg yr adnoddau staff i wneud hyn yn bosibl) gan ei fod yn annog dysgwyr i barhau â'u dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyfle i'r dysgwyr optio allan ond mae'n rhaid iddynt roi rheswm da dros hynny.

Sgiliau Hanfodol yn y Gymraeg

Mae pawb yn gwybod bod Sgiliau Hanfodol mewn llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth (TG) yn bwysig i ddysgwyr er mwyn cael gwaith. Mae llawer o ddarparwyr wedi gweld bod Sgiliau Hanfodol yn gallu bod yn ffordd effeithiol o annog dysgwyr i wneud rhan o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn gyfle i ddysgwyr sydd wedi bod mewn ysgol uwchradd Gymraeg i barhau â'u gwaith sgiliau hanfodol yn y Gymraeg.

- Mae North Wales Training yn hybu dysgwyr i wneud cymaint ag y bo modd o'u cymhwyster trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys gwneud eu Sgiliau Hanfodol yn y Gymraeg.
- Mae ACT Training wedi creu adnodd sydd â thermau Cymraeg a Saesneg ym maes rhifedd. Mae dysgwyr o ysgolion Cymraeg wedi gweld bod hwn yn adnodd defnyddiol iawn gan eu bod wedi dysgu mathemateg trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol a'u bod yn cael traferth â'r termau Saesneg.

English	Welsh	Meaning
Fractions	Ffracsiynau	A numerical quantity that is not a whole number. A part, amount or proportion of something.
Proportion	Cyfran	A part, share or number considered in comparative relation to a whole.
Analyse	Dadansoddi	Break down into components or essential features; examine in detail.
Appropriate	Addas	Suitable for intended task, context, audience, etc. The use in the standards recognises that different contexts require different treatments.
Chart	Siart	A form of representation of discrete data. Frequencies are represented equal widths where the lengths are proportional to the frequencies. Can be vertical or horizontal.
Capacity	Cynhwysedd	Volume applied to liquids, materials that can be poured or containers. Units include cubic centimetres and cubic metres.
Collect	Casglu	This term is used at level two to indicate that the candidate must show more initiative and independence than is required when obtaining data.
Data	Data	Qualitative information consisting of counts or measurements.
Diagram	Diagram	A graphical method of representation other than a chart or graph.
Estimate	Amcangyfrif	To arrive at an approximate answer by calculating with suitable approximation for numbers or, in measurement, by drawing on previous experience.
Formula	Fformiwla	Any identity, general rule or mathematical law.
Frequency table	Tabl amledd	Used for a set of data showing how often each event or quantity occurs.
Mean	Cymedr	A type of average. The sum of all quantities divided by the number of them.
Median	Canolrif	A type of average. The middle number or value when all are arranged in ascending order.
Mode	Modd	A measure of average which shows the most frequently occurring value in a set of data.
Pie chart	Siart cylch	A form of representation of data. A circle is divided into sections. The frequency or amount of each quantity is proportional to the angle at the centre of the circle.
Range	Ystod	Refers to three or more methods, sources options, etc. A measure between the lowest and highest number in a set of data.
Ratio	Cymhareb	A comparison of quantities of the same kind.
Scale	Graddfa	The ratio between the size of something and the size of a representation of it.
Table	Tabl	An orderly arrangement of information, numbers or letters, usually in rows or columns.
Tally	Marc rhifo (tali)	Marks to represent objects counted.

Pennu Targedau ar gyfer Cymraeg ar Bob Lefel ar gyfer Pob Dysgwr

Yn yr Asesiad Cychwynnol, mae llawer o ddarparwyr yn pennu targedau datblygu ar gyfer dysgwyr sy'n siarad Cymraeg eisoes; fodd bynnag, mae rhai darparwyr wedi penderfynu pennu targedau ar gyfer pob dysgwr ar bob lefel. Felly, faint bynnag o Gymraeg y mae'r dysgwyr wedi'i hastudio o'r blaen, mae disgwyl iddynt ddangos eu bod wedi symud ymlaen i raddau y cytunir arno fel rhan o'u cymhwyster galwedigaethol.

- Mae Coleg Sir Benfro wedi penderfynu pennu targedau ar gyfer yr holl ddysgwyr, faint bynnag o Gymraeg y maent yn ei deall a beth bynnag yw lefel y cymhwyster y maent yn astudio ar ei gyfer. Cafwyd ymateb cadarnhaol gan y dysgwyr i'r cynllun hwn. [GWELER YR ADNODD](#)

Cyfnod Cynefino'r Dysgwyr

Cymraeg yn y Pecyn Dysgwyr

Mae llawer o ddarparwyr yn sôn wrth y dysgwyr am bwysigrwydd y Gymraeg wrth iddynt ddechrau ar eu rhaglen ddysgu. Maent yn gwneud hyn trwy roi gwybodaeth a chefnogaeth iddynt ar ddechrau eu cwrs.

- Mae Babcock Training wedi cynnwys elfen Gymraeg/ddwyieithog yn eu Pecyn Dysgwyr; mae'n cynnwys ychydig o eiriau ac ymadroddion Cymraeg a gwybodaeth rhag ofn y bydd y dysgwyr am wneud rhagor o waith am yr iaith Gymraeg neu ddiwylliant Cymru.

Llyfryn i Ddysgwyr

Er mwyn tynnu sylw at fanteision sgiliau Cymraeg yn y gweithle, mae gan rai darparwyr lyfryn i ddysgwyr weithio trwyddo fel rhan o'u cymwysterau galwedigaethol.

- Mae Academi Sgiliau Cymru wedi creu llyfryn 'Welsh for the Workplace/Cymraeg i'r Gweithle' a ddefnyddir trwy'r consortiwm cyfan. Mae'r llyfryn yn cynnwys Cymraeg sylfaenol a themau ac ymadroddion defnyddiol ar gyfer y gweithle.

Dyma enghreifftiau o lyfryn Academi Sgiliau Cymru:



Contents / Cynnwys	
Greetings / Cyfarchio	1
Answer Phone Messages / Negeseuon Peiriant Ateb	1
Answering the Phone / Ateb y Ffôn	2
Common Questions / Cwestiynau Cyffredin	2
Clarifying Information / Egluro Gwybodaeth	3
Useful Phrases / Ymadroddion Defnyddiol	3
Useful Questions / Cwestiynau Cyffredin	4
Useful Phrases at Reception / Ymadroddion Defnyddiol yn y Ddebydd	4
Numbers (0-10) / Rhifau (0-10)	5
Days of the Week / Dyddiau'r Wythnos	5
Months of the Year / Misoedd y Flwyddyn	6
Seasons / Tymhorau	6
Holidays / Gwyliau	6
Weather / Tywydd	7
Vehicle Fitting / Ffitio Cerbydau	8-10
Mechanical Engineering / Peirianneg Fecanyddol	11-13
Health and Social Care / Iechyd a Gofal Cymdeithasol	14-16
Child Care / Gofal Plant	17-19
Retail & Customer Service / Adwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid	20
Team Leading/Management / Arwain Tîm/Rheoli	21
Business Administration / Gweinyddiaeth Busnes	22-23
Accounting / Cyfrifeg	24
Construction / Adeiladwaith	25-26
Dentistry / Deintyddiaeth	27
Sport / Chwaraeon	28
Hairdressing / Trin Gwallt	29
Logistics / Logisteg	30
Welsh National Anthem / Anthem Genedlaethol Cymru	31
Fun Facts About Wales / Ffleithau Hwyl am Gymru	32

- Mae gan North Wales Training lyfr gwaith o'r enw 'Welsh Culture'. Mae pob dysgwr (Cymraeg a di-Gymraeg) yn cael y llyfryn hwn sy'n rhoi gwybodaeth am 'ddiwylliant a threftadaeth' ac sy'n cynnwys cwestiynau i'r dysgwyr eu hateb.

Deunyddiau Cynefino

Mae gan nifer o'r darparwyr rai deunyddiau cynefino ar gyfer dysgwyr, os nad y cyfan, ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Byddai hwn yn adnodd gwych i'w rannu gyda gweddill y rhwydwaith.

- Mae Cwmni Hyfforddiant Cambrian wedi cyfieithu adran lechyd a Diogelwch y pecyn cynefino i'r Gymraeg. Felly, gall dysgwyr lenwi'r adran hon yn Gymraeg os mynnant.

My Welsh Culture Hub

Mae un darparwr wedi creu gwefan sy'n helpu eu dysgwyr i ddeall mwy am Gymru, ei diwylliant, ei hanes a'r iaith Gymraeg. Mae'n helpu dysgwyr i ddeall eu hamgylchedd lleol.

- Mae Acorn Learning Solutions wedi creu gwefan o'r enw MyWelshCultureHub sy'n ceisio ennyn diddordeb dysgwyr yn eu treftadaeth Gymreig. Mae'n tynnu sylw at fanteision Cymru a sut gall bod yn Gymro/Gymraes eich helpu i gael swydd yn y dyfodol. [EWCH I'R ASTUDIAETH ACHOS](#)

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth/Iaith Gymraeg

Sesiynau/Dosbarthiadau Cymraeg Wythnosol

Mae rhai darparwyr yn annog dysgwyr i fynd i sesiynau a/neu ddosbarthiadau wythnosol lle gallant ymarfer eu Cymraeg a dysgu rhagor. Mae rhai darparwyr yn cynnal gwersi Cymraeg am awr bob wythnos ac eraill yn cael amser cinio Cymraeg.

Er mwyn gwneud hyn, bydd arnoch angen aelod o'r staff sy'n gallu siarad Cymraeg a'i dysgu i eraill.

- Mae Hyfforddiant Torfaen wedi cynnig y cyfle i'w dysgwyr fynd i sesiynau Cymraeg wythnosol er mwyn gwella'u sgiliau yn y Gymraeg a/neu eu hyder wrth ei defnyddio.

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg ymhlith y di-Gymraeg a rhai sydd heb ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg ers peth amser. Mae hyn yn datblygu eu defnydd o'r Gymraeg ac yn eu helpu i sylweddoli bod gan bobl eraill hawl i siarad Cymraeg os dymunant. Mae rhai darparwyr yn sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru a'u manteision. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod dysgwyr yn sylweddoli bod angen bod yn ddwyieithog i weithio mewn llawer o lefydd a bod sgiliau yn y Gymraeg yn fanteisiol.

- Mae Y Coleg Merthyr Tudful yn rhedeg dosbarthiadau ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg gyda dysgwyr yn y coleg. Mae'r Hyrwyddwr Dwyieithrwydd yn Y Coleg Merthyr Tudful yn gobeithio ehangu hyn i gynnwys y staff hefyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud DVD o'r enw 'Ein Hiaith: Our Language' i godi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg. Mae'r adnodd hwn ar gael ar wefan adnoddau dysgu [Hwb](#).

Mae'r adnodd yn cynnwys clipiau defnyddiol o bobl sy'n siarad Cymraeg ac mae'n rhoi cefndir i'r defnydd a wnaed o'r iaith Gymraeg ddoe a heddiw. Mae hefyd yn cynnwys cwis am Gymru a'r iaith Gymraeg.

Mae'r adnodd i godi ymwybyddiaeth o'r iaith i'w gael yma:

<http://hwb.wales.gov.uk/Resources#resource/91cc6904-8b3e-419a-bc5f-5294ea233a06/en>

Yn ddiweddar, mae ColegauCymru wedi bod yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a Iaith Cyf i ddiweddarau rhan o'r adnodd hwn i'w wneud yn fwy addas ar gyfer Addysg Ôl-16. Mae'r adnodd i'w weld yma: <https://moodle.colegaucymru.ac.uk/course/view.php?id=146&lang=cy>



Defnyddio'r Gymraeg yn Achlysurol

Gan mai ychydig o alw sydd am gyrsiau Cymraeg ar hyn o bryd, mae llawer o ddarparwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol yn yr ystafell ddosbarth, wrth arsylwi ac mewn trafodaethau proffesiynol fel ffordd o ddangos sut i'w defnyddio ac annog dysgwyr i'w defnyddio fel rhan o'u cymhwyster.

Wrth roi gwybod i ddysgwyr bod bwriad i ddefnyddio rhagor o Gymraeg yn y sefydliad, mae'n dangos bod y Gymraeg yn sgil a fydd yn eu helpu i gael gwaith.

- Mae gan North Wales Training dechnoleg ryngweithiol sy'n rhan o'u 'Gweithdy Cerbydau Modur' ac sy'n galluogi dysgwyr i enwi tŵls a pheiriannau yn Gymraeg a/neu yn Saesneg.

Mae llawer o ddarparwyr yn cynnwys cymaint o Gymraeg ag y bo modd yn eu grwpiau gallu cymysg. (Er enghraifft, maen nhw'n dweud 'Croeso', 'Eisteddwch' ac ati).

Mae Sgiliaith (a ariannir gan Lywodraeth Cymru) wedi creu llawer o glipiâu fideo i hybu dysgu dwyieithog yn y sector addysg ôl-16 yng Nghymru. Mae rhai o'r clipiau'n hybu defnyddio Cymraeg achlysurol wrth ymateb i ddysgwyr. Mae'r clipiau i'w gweld wrth ddilyn y ddolen hon: <http://sgiliaith.llandrillo.ac.uk/cy/resources/video-clips/tutors-bilingualism-toolkit>



Bore Clonc

Bore coffi ar gyfer dysgwyr, staff ac unrhyw un arall a hoffai ddod i wella'u sgiliau siarad gyda phobl eraill o'r un feddwl.

- Mae Coleg Sir Benfro yn cydweithio â Menter Iaith Sir Benfro i gynnal 'Bore Clonc' bob mis fel y gall staff a dysgwyr siarad Cymraeg â'i gilydd dros goffi. Mae Coleg Sir Benfro wedi cael ymateb da iawn i'r digwyddiadau hyn.

SaySomethinginWelsh

Gan fod datblygu sgiliau yn y Gymraeg yn dod yn bwysicach o hyd, mae llawer o ddarparwyr wedi dechrau annog dysgwyr di-Gymraeg neu rai sydd heb lawer o Gymraeg i gymryd rhan yng nghwrs ar-lein SaySomethinginWelsh. Yno, mae modd dysgu Cymraeg ar eich cyflymder eich hunan, heb orfod ysgrifennu dim.

Mae'r 25 sesiwn gyntaf o SaySomethinginWelsh AM DDIM ac mae Agored Cymru wedi bod yn cydweithio'n agos â staff SaySomethinginWelsh i achredu'r grŵp cyntaf o sesiynau fel y gall pobl gael tystysgrif i ddangos eu bod yn gallu siarad tipyn bach o Gymraeg pan fyddant yn ymgeisio am swyddi.

Yn ogystal, mae SaySomethinginWelsh wedi creu ap AM DDIM sy'n golygu nad oes raid eistedd wrth gyfrifiadur i ddysgu Cymraeg.

Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth: <https://www.saysomethingin.com/welsh/course1>

Cyrsiau Cymraeg Ar-lein

Mae'r Virtual College yn cydweithio â learndirect i gynnig cyrsiau mewn nifer o ieithoedd ar lefel Dechreuwr fel y gallwch astudio o gartref, y swyddfa neu unrhyw le sydd â chysylltiad â'r rhyngwyd. Dilynwch y ddolen hon i gael gwybod mwy:

http://rlp.virtualcollege.ac.uk/index.php?option=com_zoo&task=item&item_id=197&Itemid=168

Paru Darpariaeth

Paru dysgwyr sy'n siarad Cymraeg ag aseswyr sy'n siarad Cymraeg

Lle bo modd, dylai darparwyr geisio paru dysgwyr sy'n gallu siarad Cymraeg ag aseswyr a all asesu gallu'r dysgwyr yn eu dewis faes trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Mae Coleg Cambria yn paru dysgwyr Cymraeg eu hiaith ag asesydd/tiwtor sy'n siarad Cymraeg. Yn ogystal, mae dysgwyr yn cael cyflwyno gwaith trwy e-bortffolio yn eu dewis iaith.

EWCH I'R ASTUDIAETH ACHOS ▶

Aseswyr Cymraeg eu Hiaith yn Mentora Dysgwyr

Mae rhai darparwyr yn trefnu bod aseswyr Cymraeg eu hiaith ar gael i fentora dysgwyr sy'n siarad Cymraeg a'u tywys trwy eu cymhwyster yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

- Mae gan LLETS, Dinas a Sir Abertawe aseswyr sy'n siarad Cymraeg a chynghorwyr hyfforddiant sy'n gallu helpu dysgwyr ym meysydd adeiladu a gofal plant i wneud o leiaf ran o'u cymhwyster seiliedig ar waith yn y Gymraeg.

Canfod Lleoliadau Cymraeg

Er mwyn annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, mae rhai darparwyr yn helpu dysgwyr i ganfod lleoliadau gwaith Cymraeg neu ddwyieithog er mwyn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae hyn yn dangos bod cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'u sgiliau yn y Gymraeg ac y byddai'n haws iddynt gael swydd pe baent yn parhau i ddatblygu'r sgiliau hyn. **Ewch i'r Astudiaethau Achos** –

ASPIRATION TRAINING (VSP) ▶

ac ACT TRAINING LTD ▶

Darparu Cyrsiau Cyfan yn Gymraeg

Mae rhai darparwyr wedi sicrhau bod cyrsiau'n cael eu cyfieithu fel eu bod ar gael yn Gymraeg ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno gwneud eu cymhwyster yn yr iaith honno.

- Mae ACT Training wedi ymateb i'r galw am gyflwyno'u cwrs Hyrwyddo Dysgu ac Addysg mewn Ysgolion (STLS) trwy gyfrwng y Gymraeg. Bu ACT yn cydweithio'n agos â'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) a'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) i gael safonau wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg. Mae gan ACT Training diwtoriaid i helpu staff mewn ysgolion Cymraeg i gyflawni eu cymhwyster yn y Gymraeg, sy'n addas ar gyfer y defnydd a wnant o'r Gymraeg yn y gweithle.

Cyfleoedd ar gyfer Profiadau Dwyieithog yn y Dosbarth

Mae rhai darparwyr yn gallu cynnig profiadau dwyieithog yn y dosbarth i ddysgwyr ac yn y gweithle i'r staff. Yn yr ystafelloedd dosbarth, mae rhai o'r darparwyr yn cynnig cyfle i ddysgwyr ddefnyddio'u sgiliau dwyieithog i gyfathrebu â'u tiwtor a'u cyd-ddysgwyr.

- Mae Grŵp Llandrillo Menai yn cynnig sesiynau Holi ac Ateb dwyieithog lle gall dysgwyr ofyn ac ateb cwestiynau yn eu dewis iaith, boed hynny'n Gymraeg, yn Saesneg neu'r ddwy iaith.

- Mae Aspiration Training wedi dechrau cynnwys y Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth ac mewn cyflwyniadau PowerPoint. **EWCH I'R ASTUDIAETH ACHOS** ▶

Arwyddion Dwyieithog mewn Gweithdai

Mae rhai darparwyr yn sicrhau bod arwyddion a/neu bosteri Cymraeg ar gael ac/neu i'w gweld yn y gweithdai fel y gall y dysgwyr sgwrsio yn eu dewis iaith a gwybod y geiriau/ymadroddion yn y ddwy iaith.

- Mae gan Hyfforddiant Ceredigion luniau ar waliau eu gweithdai o'r holl dŵls y maent yn eu defnyddio a'u henwau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r tiwtor hyd yn oed yn gofyn i ddysgwyr di-Gymraeg roi enw Cymraeg yr offer yn ogystal â'r enw Saesneg.

Yn ogystal, mae ymadroddion Cymraeg cyffredin yn cael eu dangos yn ddwyieithog (e.e. A bad workman always blames his tools (or someone else) neu Mesur ddwywaith, torri unwaith).

Cyfieithu Gwaith Dysgwyr

Mae rhai darparwyr sydd heb aseswyr Cymraeg eu hiaith mewn rhai sectorau yn derbyn gwaith yn Gymraeg gan ddysgwyr ac yn trefnu i'w gyfieithu i'r Saesneg i gael ei asesu. Yna, mae ymateb yr asesydd yn cael ei gyfieithu yn ôl i'r Gymraeg ar gyfer y dysgwr.

Efallai nad yw hon yn broses ddelfrydol ond mae yn caniatáu i'r dysgwyr gyfathrebu a chwblhau gwaith yn eu dewis iaith.

- Mae Coleg Sir Benfro wedi cynnig y gwasanaeth hwn i ddysgwyr mewn meysydd lle nad oes aseswyr Cymraeg eu hiaith ar gael i asesu'r gwaith yn y Gymraeg.

Adolygiadau

Adolygiadau a Wneir yn Gymraeg

Mae rhai darparwyr yn annog eu haseswyr a'u dysgwyr i gynnal eu hadolygiadau yn Gymraeg. Mae hyn yn ffordd wych o ddangos bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y gweithle; ond mae'n golygu bod angen staff gweinyddol sy'n deall Cymraeg i wirio ansawdd y gwaith papur.

- Mae Hyfforddiant Arfon Dwyfor yn cynnal llawer o adolygiadau yn Gymraeg gan mai dyna ddewis iaith llawer o ddysgwyr yr ardal, hyd yn oed os yw'n well ganddynt ysgrifennu yn Saesneg.
- Yn ogystal, mae LLETS, Dinas a Sir Abertawe yn cynnal nifer o'u hadolygiadau ym meysydd Adeiladu a Gofal Plant yn Gymraeg am mai dyna iaith y dysgwyr a'u haseswyr. Fodd bynnag, gwneir llawer o'r gwaith yn Saesneg.
- Mae blychau ticio ar ffurflen Adolygu Coleg Sir Gâr i ddweud ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog y cynhaliwyd yr Adolygiad. Mae hyn yn golygu bod pawb yn gwybod pa iaith a siaredir hyd yn oed os yw'r adolygiad wedi'i ysgrifennu yn Saesneg.
- Mae gan y Gynghrair Ansawdd Sgiliau flychau ticio ar eu ffurflenni Adolygu i nodi a wnaed yr asesiad yn Gymraeg a/neu a gynhaliwyd y drafodaeth o gwmpas yr asesiad yn Gymraeg

Weithiau, mae'r cyflogwr yn gofyn am i'r adolygiad gael ei ysgrifennu yn Saesneg gan nad yw'n siarad Cymraeg ac yr hoffai weld beth sy'n digwydd yn rheolaidd. Os felly, byddai nodi ar yr adolygiad bod y sgwrs wedi digwydd yn Gymraeg yn ddigon o dystiolaeth i gofnodi bod y ddarpariaeth yn Gymraeg.

Trafod yr iaith Gymraeg mewn Adolygiad Misol/Deufisol

Mae llawer o ddarparwyr yn trafod yr iaith Gymraeg a/neu'r diwylliant Cymreig yn eu hadolygiadau misol neu ddeufisol gyda dysgwyr. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd yr iaith a/neu'r diwylliant ac weithiau gall fod yn anogaeth i ddysgwyr wneud rhagor o waith yn Gymraeg.

- Mae Babcock Training yn trafod Gair neu Ymadrodd Cymraeg y Mis gyda dysgwyr wrth gynnal eu hadolygiad ac yn cofnodi hynny ar y ffurflen adolygu.
- Mae ISA Training yn cynnwys yr iaith Gymraeg a/neu ddiwylliant Cymru ym Mhwnc y Mis ADCDF bob mis, nid dim ond adeg Dydd Gŵyl Dewi. **EWCH I'R ASTUDIAETH ACHOS** ▶
- Mae gan Goleg Cambria bolisi lle mae'n rhaid i bob adolygiad gyfeirio at ddatblygiad yn yr iaith Gymraeg. Mae hyn yn dangos i bob dysgwr bod y Gymraeg yn sgil ddefnyddiol i'w chael yn y gweithle.
- Mae North Wales Training yn cofnodi 'Gweithgareddau Cymraeg' ar adolygiadau'r holl ddysgwyr (pa un bynnag a ydynt yn siarad Cymraeg ai peidio). Mae hyn yn hybu cynhwysiant ac yn sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn ymwybodol o'r Gymraeg a'i manteision yn y gweithle.

Geiriau a Thermau Cymraeg

Gair Cymraeg y Diwrnod

Er mwyn rhoi hwb i agwedd pobl at y Gymraeg, mae llawer o ddarparwyr yn defnyddio Gair Cymraeg y Diwrnod, sy'n ffordd araf ond sicr o gynyddu geirfa'r dysgwyr a'u gwerthfawrogiad o'r iaith Gymraeg.

Er mwyn gwneud y gorau o'r arferiad hwn, mae'n dda cael cronfa o eiriau Cymraeg yr hoffech eu defnyddio er mwyn gwneud y broses yn symlach. Hefyd, un ffordd dda o hybu diddordeb yng Ngair Cymraeg y Diwrnod fyddai gwneud y geiriau'n berthnasol i'r hyn sy'n digwydd y diwrnod, yr wythnos neu'r mis hwnnw.

Byddai'n dda tynnu sylw at y gair Cymraeg trwy ei roi ar yr [Hysbysfwrdd Cymraeg/Diwylliannol](#) a/neu ar [Twitter](#) gellid ei gysylltu ag [Ymadrodd Cymraeg yr Wythnos](#) hefyd.

Ymadrodd Cymraeg yr Wythnos

Yn hytrach na Gair Cymraeg y Diwrnod, mae rhai darparwyr yn dewis defnyddio Ymadrodd Cymraeg yr Wythnos. Gall hyn roi llai o bwysau arnynt na phenderfynu ar air bob dydd achos dim ond unwaith yr wythnos mae angen meddwl am ymadrodd newydd.

Er mwyn i bobl gael budd o Ymadrodd Cymraeg yr Wythnos, mae'n dda cael cronfa o ymadroddion a'u gwneud yn berthnasol. Mae'n dda eu dangos ar yr [Hysbysfwrdd Cymraeg/Diwylliannol](#) a/neu ar [Twitter](#) hefyd.

Os ydych yn ddewr, gallech wneud Ymadrodd Cymraeg yr Wythnos allan o'r geiriau a ddefnyddiwyd yn Gair Cymraeg y Diwrnod.

Gair o Rybudd: Gall hyn fod yn anodd os nad ydych yn trefnu'r Geiriau/Ymadroddion ymlaen llaw.

Dydd Mercher Cymraeg

Y syniad yw bod dydd Mercher yn cael ei gyfrif yn ddiwrnod pryd y mae staff a dysgwyr yn cael eu hannog i siarad Cymraeg. Mae hyn yn gwneud dysgu/siarad Cymraeg yn fwy o hwyl.

- Mae gan dîm Iechyd a Gofal Cymdeithasol ACT Training ddymi er mwyn i'r dysgwyr gael ymarfer defnyddio hoist. Dywedir wrth y dysgwyr mai dim ond Cymraeg mae Joe Bloggs (y dymi) yn ei siarad ar ddydd Mercher. Felly mae'r dysgwyr yn gorfod ceisio siarad Cymraeg â'r dymi, sy'n eu helpu gan fod rhai pobl oedrannus yn mynd yn ôl i ddefnyddio'u mamiaith yn eu henaint.

Mae hyn yn cynnig senario lle bo'r Gymraeg yn cael ei defnyddio 'go iawn' ond mae hefyd yn hwyl.

act developing learning

TWEETS 1,728 FOLLOWING 569 FOLLOWERS 1,453

ACT Training Ltd
@acttrainingltd **FOLLOWS YOU**

Wales' leading Apprenticeship/training provider, supporter of work based learning #Apprenticeships. You are speaking to the Marketing Team!

South Wales · acttraining.org.uk

Followed by Portal Training, HB Training Wales, Cardiff&Vale College and 63 others.

act developing learning **ACT Training Ltd** @acttrainingltd · 47s
Prynhawn da! It's #welshwednesday! Today's translation is Dwi'n dysgu Cymraeg which means I'm learning Welsh. Dal ati, keep at it!

[Details](#)

Mae llawer o ddarparwyr wedi dechrau defnyddio #welshwednesday ar Twitter ac maent yn dweud bod yr awrygylch yn fwy Cymreig ar ddyddiau Mercher.

Poster ag Ymadroddion Dwyieithog/Geirfaoedd


Mae rhai darparwyr wedi creu poster i â geirfaoedd arnynt i'w rhoi ar waliau'r ystafelloedd dosbarth neu i'w rhoi i'r dysgwyr yn eu pecynnau adnoddau.

Gall y rhain gynnwys yr eirfa sydd gan siaradwyr Cymraeg neu helpu i'w hatgoffa am y geiriau ar gyfer gwaith ysgrifennu. Gellir eu defnyddio mewn gwersi dwyieithog hefyd, lle mae dysgwyr sy'n siarad Cymraeg i wahanol lefelau'n cael eu dysgu gyda'i gilydd.

- Mae Coleg Cambria wedi creu llyfrynau geirfa ar gyfer y gwahanol sectorau galwedigaethol, gyda rhestrau o eiriau defnyddiol/cyffredin.
- Mae Coleg Sir Gâr wedi creu poster geirfa ar gyfer llawer o'u cyrsiau academiaidd a galwedigaethol.
- Mae ISA Training yn defnyddio Geirfa Trin Gwallt Habia i helpu eu dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau dwyieithog yn y gweithle. Yn ogystal, mae ISA Training wedi casglu cronfa o dermau dwyieithog a'u hystyron fel y gall dysgwyr weithio yn y ddwy iaith.

English	Welsh	Meaning
Accident	Damweiniau	Noun; Something bad that happens that is not expected or intended and which often damages something or injures someone
Appointment	Penodi	Noun; A formal arrangement to meet or visit someone at a particular time and place
Chemical	Cemegol	Noun; A substance used in or produced by changes from a chemical reaction
Clients	Cleient	Noun; Someone who receives a service
Colourant	Iliwydd	Noun; A colouring agent, pigment.
Consultation	ymgyngori	noun: a meeting to discuss something or to get advice
Cortex	Cortecs	Noun; This is the centre part of the hair, it makes up most of the hair shaft. It gives hair its special qualities such as elasticity and curl. It is packed with strands of keratin, lying along the length of the hair.
Cuticle	Cwtigl	The cuticle protects the inner structure of the hair. Chemical relaxers, hair color and permanent wave solution enter the hair cortex raising the scales on the cuticle
Eczema	Ecsema	Noun: a skin condition in which areas of the skin become red, itchy and very sore. This is often a result of allergies such as hayfever.

- Mae Hyrwyddwr Dwyieithrwydd Coleg Gŵyr Abertawe wedi creu geirfaoedd ar gyfer pob sector galwedigaethol i helpu dysgwyr i ddefnyddio'u Cymraeg.
- Mae'r Gynghrair Ansawdd Sgiliau wedi creu poster geirfa ar gyfer rhai o'i llwybrau er mwyn helpu dysgwyr a/neu staff.



10 Ymadrodd Defnyddiol ar gyfer Pob Llwybr

Mae gan rai darparwyr restr o ymadroddion defnyddiol ar gyfer pob sector galwedigaethol. Mae hyn yn help i ddangos pa mor hyblyg a phwysig yw'r iaith a'i bod yn well gan rai cwsmeriaid siarad Cymraeg.

Gwahanol Liwiau ar gyfer Cymraeg a Saesneg

Gall rhai dysgwyr gael trafferth gwahaniaethu rhwng y ddwy iaith ar bapur a'i chael yn haws os bydd y ddwy wedi'u hysgrifennu mewn gwahanol liwiau. Mae hynny'n gwahaniaethu rhwng y ddwy iaith ac yn dangos pwysigrwydd defnyddio'r ddwy yn y gweithle ac yn y gymuned ehangach.

Diwylliant Cymru

Hysbysfwrdd Cymraeg/Diwylliannol

Mae gan y rhan fwyaf o ddarparwyr hysbysfwrdd Cymraeg sy'n hybu'r iaith a/neu'r diwylliant Cymraeg. Gall yr hysbysfwrdd gynnwys [Gair Cymraeg y Diwrnod](#) neu [Ymadrodd Cymraeg yr Wythnos](#). Gallai'r hysbysfwrdd gynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau Cymraeg a thynnu sylw at ddysgwyr neu staff sydd wedi cyflawni unedau neu ennill cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg, neu hyd yn oed roi gwybodaeth am gemau rygbi rhyngwladol.

Os oes gan ddarparwyr wahanol safleoedd, mae'n dda cael Hysbysfwrdd Cymraeg/Diwylliannol ar bob safle.

- Mae gan Hyfforddiant Torfaen hysbysfwrdd yn y dderbynfa sy'n cyfeirio at enwogion sydd â chysylltiad Gymreig er mwyn i'r dysgwyr weld pa mor bwysig yw Cymru yn y byd.

Hybu Diwylliant Cymru

Fel rhan o ADCDF, mae llawer o ddarparwyr yn hybu diwylliant Cymru trwy bosteri ac yn cynnal dathliadau ar ddiwrnodau fel Dydd Gŵyl Dewi. Mae rhai darparwyr hyd yn oed yn mynd â dysgwyr i lefydd sy'n bwysig i ddiwylliant Cymru fel Sain Ffagan a Big Pit.

Mae hybu diwylliant Cymru'n gam pwysig er mwyn ennyn diddordeb dysgwyr mewn gweithgareddau Cymraeg/dwyieithog.

Mae rhai darparwyr yn cynnal wythnos Gymreig pryd y cynhelir digwyddiadau Gymreig i ddangos pwysigrwydd Cymru a'i diwylliant.

- Mae ACT Training yn cynnal Wythnos Gymreig ac Eisteddfod fach ar gyfer eu dysgwyr. Maent hefyd yn cynnal cystadlaethau 'Balch o fod yn Gymry' yn ystod yr Wythnos Gymreig.



Ymweliadau Diwylliannol

Mae llawer o ddarparwyr wedi bod â'u dysgwyr ar deithiau diwylliannol. Mae hyn yn cyflwyno'r dysgwyr i'w treftadaeth ddiwylliannol ac yn ennyn balchder yng Nghymru. Gallai hynny olygu eu bod yn fwy tebygol o wneud eu gwaith yn Gymraeg neu siarad Cymraeg â'u hasesydd.

- Mae Hyfforddiant Torfaen wedi bod â llawer o ddysgwyr i safleoedd fel Big Pit, Sain Ffagan, ac i'r safleoedd Rhufeinig yng Nghaerllion, Dinas Powys a Hen Gwmbrân i hybu eu Sgiliau Hanfodol a rhoi blas ar ddiwylliant Cymru iddynt.
- Mae Rathbone wedi bod â dysgwyr i Sain Ffagan i ddysgu mwy am ddiwylliant Cymru. Buont yn dysgu am y 'Welsh Not' hefyd. Roedden nhw'n meddwl bod hynny'n ddiddorol iawn – bod rhai o'n cyndadau'n cael eu gorfodi i beidio â siarad Cymraeg.

Y Cyfryngau Cymdeithasol a Thechnoleg

Bydd defnyddio Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol yn rhoi hwb i statws y Gymraeg ac i'r diwylliant Cymreig. Ymhlith y cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd mae: Facebook, Twitter, Youtube, Pinterest a Skype.

Twitter



Mae rhai darparwyr yn mynd â'r syniad o '[Air Cymraeg y Diwrnod](#)' yn bellach ac yn defnyddio Twitter i hybu'r iaith. Mae'n help i'r dysgwyr sy'n teimlo'n fwy cysurus yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac yn gwneud yr iaith yn fwy poblogaidd ar Twitter yn gyffredinol.

I fynd ar Twitter, ewch i: www.twitter.com

- Mae Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn defnyddio Twitter yn aml i hybu Gair Cymraeg y Diwrnod.
- Mae ISA Training ac ACT Training yn defnyddio Twitter i hybu #welshwednesday

Gallwch ddilyn [@Bilingual_WBL](#) ac [@NTFWwbl](#). Hefyd, cofiwch gefnogi menter Llywodraeth Cymru i hybu'r Gymraeg trwy ddefnyddio'r hashnod [#PethauBychain](#) a dilyn [@iaithfyw](#).


Youtube



Mae Llywodraeth Cymru wedi creu fideos byr o'r enw 'Mwy na geiriau' a 'More than just words' a'u rhoi ar YouTube. Mae'r clipiau hyn yn dangos pa mor bwysig yw sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer unigolion a grwpiau o bobl yng Nghymru.

Byddai'n arfer da i ddarparwyr roi gwybod i'w dysgwyr am y clipiau hyn neu eu defnyddio gyda'u dysgwyr.

Cliciwch yma i weld y clipiau 'Mwy na geiriau' a 'More than just words':



Clipiau Fideo o Ddysgwyr yn Trafod eu Haddysg Gymraeg

Er mwyn rhoi hwb i'r galw am addysg ddwyieithog ôl-16, mae un darparwr wedi creu fideo o ddysgwyr yn sôn am eu profiadau o addysg ddwyieithog. Y nod yw dangos pa mor hawdd yw dysgu'n ddwyieithog a faint o fanteision sydd o allu gweithio'n ddwyieithog yn y dyfodol.

- Mae Coleg Llandrillo wedi paratoi fideo o'r enw 'The Benefits of a Bilingual Learning Environment' sydd ar gael ar wefan Sgiliaith: http://sgiliaith.llandrillo.ac.uk/?page_id=932

Efallai y gallech chi greu clip fideo o'ch dysgwyr chi'n trafod eu cymwysterau dwyieithog a manteision dysgu'n ddwyieithog. Hefyd, gallech ofyn i gyflogwyr lleol bwysleisio pa mor bwysig yw sgiliau Gymraeg yn eu cwmni nhw ac yn eich ardal chi. Mae hyn yn dangos bod y Gymraeg yn bwysig ym mhob rhan o Gymru.

Gwneud Gwaith Llafar yn Gymraeg a Defnyddio Offer Recordio Digidol

Mae llawer o ddysgwyr yn gyndyn o wneud gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg er eu bod yn siarad yr iaith yn rhugl; felly, mae rhai darparwyr yn rhoi cyfle iddynt wneud llawer, neu'r cyfan, o'u gwaith llafar yn Gymraeg. Mae hynny'n helpu'r dysgwyr i gadw'r sgiliau sydd ganddynt eisoes.

Un dull a ddefnyddir gan rai darparwyr i gadw tystiolaeth o'r gwaith hwn yw defnyddio offer recordio digidol a'i gadw ar eu system ar gyfer mesur ansawdd ac archwilio.

- Mae aelodau o Gonsortwm B-wbl yn aml yn recordio sylwadau dysgwyr yn Gymraeg ac yn eu storio'n ganolog fel tystiolaeth tuag at brentisiaeth y dysgwyr ac i ddangos y defnydd a wneir o'r Gymraeg fel rhan o archwiliad allanol.

Cyfathrebu

Holiadur i Ddysgwyr

Er mwyn casglu rhagor o wybodaeth gan ddysgwyr, mae llawer o ddarparwyr yn cynnal holiadur i ddysgwyr (yn ogystal â 'Llais y Dysgwr' sy'n holiadur gan Lywodraeth Cymru i gael ymateb dysgwyr i Addysg ôl-16 yng Nghymru). Mae'n gofyn rhagor o gwestiynau i ddysgwyr fel y gall y darparwr wella'r ddarpariaeth Gymraeg neu ddiwylliannol fel rhan o gymwysterau'r dysgwyr.

- Mae Babcock Training wedi cyflwyno holiadur 'Survey Monkey' sy'n gofyn cwestiynau am effaith y Gymraeg ar yr hyn y mae'r dysgwyr yn ei wneud.
- Mae gan PeoplePlus (A4e Cymru) flwch awgrymiadau/sylwadau lle caiff dysgwyr gynnig sylwadau yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd PeoplePlus yn ymateb i'r sylwadau neu'n gwneud newidiadau os bydd angen. Mae hyn yn dangos yn glir bod y dysgwyr yn cael cyfathrebu yn eu dewis iaith.



Syniadau gan Ddysgwyr (yn cynnwys Llais y Dysgwr)

Mae rhai darparwyr yn cynnwys y dysgwyr yn y broses benderfynu ar gyfer y ddarpariaeth Gymraeg/Ddwyieithog, gan fod y dysgwyr yn fwy tebygol o gymryd rhan os cânt gynnig eu syniadau eu hunain.

- Mae gan Goleg Cambria fforwm ar gyfer dysgwyr Cymraeg eu hiaith. Mae'r fforwm wedi gofyn am ragor o grwpiau/weithgareddau Cymraeg er mwyn sicrhau gwell amgylchedd Cymraeg i bawb.

Cardiau Post i Rieni a Dysgwyr

Mae un darparwr wedi creu cardiau post (Cymraeg a Saesneg) i'w hanfon at ddysgwyr a/neu eu rhieni/gwarcheidwaid i ddweud sut y maent yn dod ymlaen â'u cwrs.

- Mae Rathbone wedi creu cardiau post fel bod dysgwyr a'u rhieni/gwarcheidwaid yn teimlo bod mwy o gysylltiad rhyngddynt a'u hyfforddiant galwedigaethol. Mae'r teuluoedd yn gallu dewis eu derbyn yn Gymraeg neu Saesneg.

Defnyddio Moodle



Er mwyn cynnwys yr holl ddysgwyr ble bynnag y maent, mae rhai darparwyr yn defnyddio'u Moodle/e-bortffolio i hybu'r Gymraeg ac maent yn cynnwys Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o laith ar gyfer y staff a'r dysgwyr.

- Cafodd Coleg Iâl (rhan o Goleg Cambria), arian o'r Gronfa Gwella Ansawdd (QIF) i greu adran ar eu safle Moodle i godi ymwybyddiaeth o'r iaith. Roedd dysgwyr a/neu staff yn darllen gwybodaeth am Gymru a'i diwylliant ac yn ateb cwestiynau i ddangos eu bod wedi deall yr hyn roeddent wedi'i ddarllen. Trwy ddefnyddio Moodle, mae'r coleg yn gallu gweld pwy sydd wedi gwneud beth a phryd.

Annog defnyddio'r Gymraeg y tu allan i Gymru

Yn ogystal ag annog dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithleoedd neu weithdai yng Nghymru fel rhan o'u cymhwyster, mae rhai darparwyr yn annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg pan fyddant dramor ar raglenni cyfnewid.

- *Mae gan ISA Training raglen sydd wedi ennill ei phlwyf o dan Brosiect Leonardo lle mae dysgwyr yn mynd dramor ar raglenni cyfnewid i gael profiad gwaith. Mae dysgwyr (a staff) yn dysgu iaith y wlad cyn gadael Cymru ond, tra byddant yno, mae dysgwyr wedi bod yn dysgu Cymraeg i bobl o'r gwledydd hynny. Mae hyn yn dangos balchder yn yr iaith Gymraeg a threftadaeth Cymru.*

Cyhoeddiadau

Dangos Cyrsiau Dwyieithog ar y Prosbectws

Mae rhai darparwyr wedi edrych ar wella'u Prosbectws a chynnwys logo i ddangos bod modd dilyn cwrs yn y Gymraeg neu gynnwys elfen ddwyieithog ynddo. Gall hyn helpu darpar ddysgwyr i ddewis pa gyrsiau/unedau i'w dilyn.

- *Mae Coleg Menai wedi llunio logo i roi yn eu prosbectws i ddangos bod rhan o gwrs (neu'r cwrs cyfan) ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.*

Cyflwynir y cwrs
yma yn ddwyieithog
This course is
delivered bilingually



Astudiaethau Achos o Ddysgwyr a Fu'n Dysgu'n Ddwyieithog

Peth arall y gellir ei wneud i annog pobl i ddysgu'n ddwyieithog yw cyhoeddi defnyddiau gan ddysgwyr sydd wedi gwneud hynny'n llwyddiannus ac sy'n defnyddio'r sgiliau yn y gweithle yn nodi'r manteision.

Does bron ddim byd yn fwy effeithiol na chlywed o lygad y ffynnon am fanteision gwneud rhywbeth.

Apiau Cymraeg

Creu Ap Cymraeg

Gan ei bod yn well gan lawer o ddysgwyr gyfathrebu a dysgu trwy dechnoleg, a gan fod yr oes ddigidol yn datblygu o hyd, byddai'n syniad gwych creu Ap Cymraeg i annog datblygiad sgiliau Cymraeg ac i gyfathrebu â dysgwyr yn y dull a'r iaith o'u dewis.

- *Mae Coleg Ceredigion wedi creu ap Android ar gyfer dysgwyr a staff i'w helpu i wella'u gramadeg. Gellir ei ddefnyddio ar gyfer aseiniadau ac yn yr ystafell ddosbarth.*

Enillodd Prifysgol Aberystwyth grant trwy 'Grantiau i hybu technoleg a chyfryngau digidol Cymraeg' a ariannir gan Lywodraeth Cymru, ac maen nhw wedi creu ap sy'n help i greu apiau Cymraeg ar bob llwyfan digidol (Android, iOS (ar gyfer Apple) a Windows).

Defnyddio Apiau ar gyfer Dyfeisiau Symudol

Fel y soniwyd eisoes, mae'n well gan lawer o ddysgwyr ddysgu trwy ddulliau digidol. Felly, byddai'r gallu i ddefnyddio apiau Cymraeg yn annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Enghraifft dda o ap y gellir ei ddefnyddio yn y gweithle yw apiau Cyngor Gofal Cymru (CGC) yn y sector lechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r apiau hyn ar gael yn Gymraeg a Saesneg (gan hybu

dwyieithrwydd). Gall aseswyr a dysgwyr eu defnyddio wrth arsylwi a chynnal adolygiadau er mwyn trafod materion pwysig sy'n berthnasol i gymhwyster y dysgwr. I gael gwybod rhagor am apiau CGC, cliciwch yma: <http://www.cgcmru.org.uk/aps/?force=2&bc=123:3856>

Cystadlaethau/Mentrau

Cystadlaethau

Mae rhai darparwyr yn cynnal cystadlaethau/mentrau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg ar gyfer eu dysgwyr. Weithiau, mae modd ennill gwobrau.

- Mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi cynnal dwy gystadleuaeth. Nod y gyntaf oedd dysgu mwy am ddiwylliant. Roedd rhaid i'r dysgwyr enwebu arwr 'Cymreig' neu rywun sy'n eu hysbrydoli mewn perthynas â Chymru, ei hiaith a'i diwylliant. Gyda'r ail gystadleuaeth, bob tro roedd dysgwr yn defnyddio'r Gymraeg, roedd yn cael stamp ar gerdyn. Pan oedd y cerdyn yn llawn, roedd enw'r dysgwr yn cael ei roi mewn het i ennill cyfrifiadur llechen bach. [EWCH I'R ASTUDIAETH ACHOS](#)
- Mae Coleg Sir Gâr yn rhoi enwau'r dysgwyr mewn het i ennill talebau pan fyddant wedi cyflwyno 5 neu fwy o aseiniadau yn Gymraeg, fel rhan o'r ymgyrch 'Tocyn Iaith'.

Noddi Dysgwyr mewn Gweithgareddau Cymraeg

Mae rhai darparwyr wedi penderfynu noddi dysgwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg a fydd yn hybu eu sgiliau.

- Mae Cwmni Hyfforddiant Cambrian wedi noddi dysgwyr i gymryd rhan mewn Eisteddfod ac maent wedi noddi crysau T i'r Clwb Ffermwyr Ifanc lleol gymryd rhan mewn cystadleuaeth ddrama.

Normaleiddio'r Gymraeg

Mae rhai darparwyr yn ceisio normaleiddio'r Gymraeg trwy gynnig yr un cyfle i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg.

- Mae Coleg Cambria wedi trefnu bod gêmâu Cymraeg ar gael ar apiau ac ar-lein fel ei bod yn arferol i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg am hwyl. Yn ogystal, mae gan Coleg Cambria Glwb Cymraeg lle mae dysgwyr yn gallu cwrdd i gael hwyl yn y Gymraeg. Mae Cyngor Myfyrwyr Coleg Cambria wedi gofyn am gael rhagor o glybiau Cymraeg.

Cwisiau a Gêmâu

Mae rhai darparwyr yn cynnal cwisiau a/neu gêmâu i wneud Cymraeg yn fwy rhyngweithiol ac yn fwy o hwyl. Mae hyn yn gweithio yn yr ystafell ddosbarth ac yn y gweithle a gall fod yn addas ar gyfer dysgu o bell hefyd.

- Mae Y Coleg Merthyr Tudful wedi creu 'Cwis Cymreig Colegau' i hybu ymwybyddiaeth o Gymru ac i helpu pobl i werthfawrogi bod yn Gymry. [GWELER YR ADNODD](#)

Ymgysylltu â'r Staff

Dyma ffyrdd o ymgysylltu â'r staff yng nghyd-destun yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Hyfforddiant Iaith

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Mae llawer o ddarparwyr yn cynnig Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg i'w staff. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r holl staff, beth bynnag eu hiaith, ystyried manteision y Gymraeg yn y gweithle ac yn yr economi ehangach. Mae hefyd yn dangos bod cyfrifoldeb ar bawb i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

- Mae Coleg Sir Benfro yn cynnig cymhwyster OCN Lefel 2 o'r enw 'Y Gymraeg mewn Cymdeithas Ddwieithog' i staff ledled y consortiwm er mwyn eu gwneud yn fwy ymwybodol o'r Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud DVD o'r enw '[Ein Hiaith: Our Language](#)' ac mae ar gael ar y llwyfan adnoddau dysgu, [Hwb](#).

- Yn ddiweddar, mae Colegau Cymru wedi bod yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a Iaith Cyf i ddiweddarau rhan o'r adnodd hwn i'w gwneud yn fwy addas ar gyfer Addysg Ôl-16. Mae i'w weld yma: <https://moodle.colegaucymru.ac.uk/course/view.php?id=146&lang=cy>

Defnyddio Twlcit ½ Diwrnod Aseswyr Sgiliaith

Mae Sgiliaith yn gorff a ariannir gan Lywodraeth Cymru i helpu darparwyr hyfforddiant yng Nghymru i gynyddu eu darpariaeth ddwyieithog. Mae Sgiliaith wedi dechrau gweithio'n agosach gyda'r sector dysgu seiliedig ar waith ac mae wedi dyfeisio Twlcit ½ Diwrnod i Aseswyr i godi ymwybyddiaeth staff Gymraeg eu hiaith a rhai di-Gymraeg o'r adnoddau sydd ar gael a beth y gallant ei wneud i hybu dwyieithrwydd ymhlith eu dysgwyr.



Mae Twlcit Aseswyr Sgiliaith i'w weld yma: <http://sgiliaith.llandrillo.ac.uk/cy/courses/cyrsiau-sgiliaith/bilingualism-toolkit/assessors-bilingualism-toolkit>

Mae llawer o adnoddau ar wefan Sgiliaith: <http://sgiliaith.llandrillo.ac.uk>


- Cymerodd Coleg Sir Gâr, Coleg Sir Benfro ac Educ8 ran yng nghynllun Sgiliaith i dreialu'r twlcit ac roedd yn dda ganddynt gael dysgu mwy am yr hyn sydd ar gael. Ers hynny, trefnwyd bod y twlcit ar gael i gyfran fawr o'r rhwydwaith.

Gweithdai Cymraeg

Mae rhai darparwyr yn cefnogi eu staff trwy gynnal gweithdai i'w galluogi i berchnogi'r Gymraeg a gwneud mwy o ddefnydd o'r iaith gyda'r dysgwyr.

- Mae Hyrwyddwr Dwyieithrwydd Coleg Gŵyr Abertawe wedi creu Twlcit i helpu staff dysgu ac asesu'r coleg i hybu ethos Cymreig. Mae'r twlcit yn cynnwys sawl elfen sy'n codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg ac yn rhoi awgrymiadau ynghylch cynnwys y Gymraeg ym mhopeth a wnânt. [GWELER YR ADNODD ▶](#)

Dyma enghraifft o'r hyn sydd i'w weld yn y ddogfen:



Hyfforddiant yn y Gymraeg i'r Staff

Yn ogystal â rhoi [Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i'r Staff](#) mae rhai darparwyr yn ariannu hyfforddiant yn y Gymraeg i'w staff fel rhan o'u Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP); ond hefyd fel ffordd o sicrhau bod rhagor o'r staff yn gallu rhoi gwell gwasanaeth dwyieithog i ddysgwyr a/ neu gwsmeriaid.

- Mae PeoplePlus yn cynnig hyfforddiant yn y Gymraeg i'w staff yn y gogledd ac yn y pencadlys yng Nghasnewydd.

Mae rhai darparwyr wedi elwa ar sesiynau hyfforddiant AM DDIM gan ddarparwr hyfforddiant iaith wedi'i ariannu gan arian Ewrop.

- Mae holl staff Hyfforddiant Arfon Dwyfor wedi cwblhau asesiad cychwynnol a bydd llawer yn cymryd rhan mewn hyfforddiant iaith wedi'i drefnu'n bwrpasol gan TILT (Training in Languages and Translation).

Hyfforddiant Mewnol yn y Gymraeg i'r Staff

Mae rhai darparwyr wedi dechrau cynnig hyfforddiant mewnol yn y Gymraeg i'w staff os oes ganddynt staff sy'n gallu cynnig yr hyfforddiant hwnnw.

- Mae Hyrwyddwr Dwyieithrwydd LLETS Dinas a Sir Abertawe wedi dechrau cynnig dosbarthiadau Cymraeg sylfaenol ar gyfer eu staff mewnol yn dilyn Holiadur Hunanasesu a anfonwyd at y staff i asesu eu sgiliau yn y Gymraeg. Lluniwyd yr holiadur gan Goleg Gŵyr Abertawe.

Cynllun Sabothol ar gyfer Hyfforddiant Iaith Gymraeg

Mae staff gan rai darparwyr yn y rhwydwaith wedi bod ar y Cynllun Sabothol Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r ymateb i'r cwrs yn rhagorol gyda'r bobl yn dweud ei fod yn gwrs gwerth chweil. Mae tair lefel i'r cynllun Sabothol – cwrs hir, cwrs byr a chwrs dysgu o bell. Mae hyn yn sicr yn rhywbeth y dylai darparwyr ei ystyried.

- Anfonodd Cwmni Hyfforddiant Cambrian un o'u haseswyr ar Gwrs Bloc y Cynllun Sabothol. Cafodd yr aelod hwnnw fudd mawr o'r cwrs a daeth yn swyddog iaith Gymraeg y cwmni.

Cwrs Gloywi Iaith ar gyfer Tiwtoriaid ac Aseswyr

Sicrhaodd Hyrwyddwr Dwyieithrwydd dysgu seiliedig ar waith gyllid trwy AdAS i redeg dau Gwrs Gloywi Iaith ar gyfer tiwtoriaid ac aseswyr ym maes dysgu seiliedig ar waith. Anelwyd y cwrs at aseswyr Cymraeg eu hiaith yr oedd arnynt angen cymorth ychwanegol i roi'r hyder iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

- Elwodd LLETS, Dinas a Sir Abertawe, Cwmni Hyfforddiant Cambrian, ISA Training, A4e, Hyfforddiant Arfon Dwyfor, North Wales Training, MPCT a Coleg Cambria, ar gael staff yn mynd ar y Cwrs Gloywi rhwng Gorffennaf a Hydref 2014.

Yn dilyn y sesiynau treialu gwreiddiol, mae Hyrwyddwr Dwyieithrwydd DSW yn cynnal sesiynau dilynol gyda'r sawl a fu ar y cyrsiau ac mae'n gweithio gydag AdAS i sicrhau cyllid ar gyfer cyrsiau ychwanegol.

SaySomethinginWelsh

Mae rhai darparwyr yn annog eu staff sy'n siarad ychydig iawn o Gymraeg os o gwbl i gymryd rhan yng nghwrs ar-lein SaySomethinginWelsh. Gall y staff wneud hyn yn eu hamser eu hunain ac ar eu cyflymder eu hunain. Os hoffech wybod rhagor, chwiliwch o dan Cynnwys Dysgwyr am [SaySomethinginWelsh](#).

- Mae gan Gwmni Hyfforddiant Cambrian staff sydd wrthi'n cwblhau cwrs SaySomethingInWelsh yn awr er mwyn gallu siarad Cymraeg â'u plant a'u cydweithwyr.

Cymraeg i Oedolion

Ar hyn o bryd, mae chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion ledled Cymru sy'n gallu cynnig hyfforddiant Cymraeg pwrpasol i gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant. Mae rhagor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael i'w gweld ar eu gwefan: <http://cymraeg.gov.wales/learning/Adults/Welsh-for-Adults/?lang=cy>

Cymraeg Achlysurol

Mae staff, fel dysgwyr, yn ymateb yn gadarnhaol i glywed Cymraeg yn rheolaidd. Mae fideo da i ddangos hyn i'w weld ar wefan Sgiliaith:

<http://sgiliaith.llandrillo.ac.uk/cy/resources/video-clips/tutors-bilingualism-toolkit>

Defnyddio Technoleg

Defnyddio Technoleg

Mae llawer o aelodau staff, fel dysgwyr, yn dewis cyfathrebu a dysgu trwy ddulliau technolegol. Felly, mae rhai darparwyr wedi buddsoddi mewn technoleg i ganiatáu hynny.

- Mae'r grŵp cyflogaeth a sgiliau (esg Cymru) wedi darparu cyfrifiaduron llechen i'w holl staff asesu fel y gallant wneud eu gwaith gyda'u dysgwyr. Felly, mae'n bosib defnyddio apiau ar y llechi hyn i ddatblygu sgiliau iaith eu staff.
- Mae ITEC Abertawe yn buddsoddi'n drwm yn y dechnoleg a ddefnyddir gan staff i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd digidol nhw'u hunain a'u dysgwyr ac, yn eu tro, eu sgiliau yn y Gymraeg.

Defnyddio Mewnwyd Ddwieithog

Er mwyn cyfathrebu'n well â staff yn eu dewis iaith, mae rhai darparwyr wedi datblygu mewnwyd ddwyieithog, fel y gall y staff ganfod gwybodaeth yn haws o lawer.

- Mae gan Goleg Cambria fewnwyd ddwyieithog ar gyfer staff. Mae llawer o'r wybodaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg fel y gallant wneud eu gwaith yn well, a dysgu am lawer o bynciau.

Tiwtorialau Ar-lein a Chymorth Rhyngweithiol Ar-lein

Mae rhai darparwyr yn rhoi cymorth ychwanegol yn y Gymraeg i'w staff trwy gynnig Tiwtorialau Ar-lein.

- Mae gan Brentisiaethau Coleg Caerdydd a'r Fro (CAVCA) aelod o staff yn eu swyddfa sy'n cynnig tiwtorialau i staff i hybu eu defnydd o'r Gymraeg a'u hyder i'w defnyddio gyda'r dysgwyr. Yn ogystal, mae CAVCA yn anfon e-Gylchlythyr yn rheolaidd at staff i'w helpu i wella'u sgiliau yn y Gymraeg. Mae hwn yn gylchlythyr rhyngweithiol ac mae'n cynnwys dolenni i lawer o adnoddau defnyddiol.

Dulliau o Gefnogi'r Staff

Mentor Dwyieithog/System Cyfeillio

Mae rhai darparwyr wedi nodi bod staff Cymraeg eu hiaith yn brin, yn enwedig mewn rhai sectorau galwedigaethol a/neu ardaloedd daearyddol. Er mwyn goresgyn hyn, a chynyddu nifer y staff asesu sy'n siarad Cymraeg yn eu sefydliad, mae rhai darparwyr yn cynnig mentor neu 'gyfaill' i'w staff i'w helpu i wella'u sgiliau a meithrin eu hyder.

- Mae gan Grŵp Llandrillo Menai sesiwn 10 wythnos lle mae rhywun dwyieithog yn cefnogi tiwtoriaid ac aseswyr i ddod yn fwy hyderus i ddysgu/asesu dysgwyr trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae Hyfforddiant Arfon Dwyfor yn cefnogi aseswyr di-Gymraeg i helpu dysgwyr i gyflawni eu cymwysterau yn y Gymraeg.

Cynadleddau Staff/Diwrnodau Adeiladu Tîm

Mae rhai darparwyr wedi penderfynu hybu morâl y staff trwy gynnal cynadleddau staff blynyddol a/neu ddiwrnodau adeiladu tîmau. Mae hyn yn ffordd wych o rannu syniadau ac arferion da.

- Mae consortiwm cyfan Grŵp Llandrillo Menai yn mynd i Gynhadledd Staff Flynyddol lle mae staff yn cael rhannu syniadau ac arferion da. Yn y gynhadledd eleni, cafodd y staff i gyd hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
- Mae ACT Training yn cynnal Diwrnodau Adeiladu Tîm yn rheolaidd. Mewn diwrnod adeiladu tîm yn ddiweddar, bu grwpiau o'r staff yn gwneud pice ar y maen/teisennau cri.

Annog y Staff i Gofleidio'r Gymraeg

Mae rhai darparwyr yn ceisio hybu ethos lle bo cyfrifoldeb ar bawb, nid ar y Swyddog(ion) Datblygu'r Gymraeg yn unig, i helpu i ddatblygu'r cyfleoedd y maent yn eu cynnig i ddysgwyr i ddatblygu'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Er mwyn hyn, mae gofyn i'r staff ymroi i'r syniad ac i bolisi, strategaeth neu gynllun y sefydliad.

- Mae ISA Training wedi cynnal Diwrnod Corfforaethol ac, fel rhan o'r diwrnod, roedd gofyn i grwpiau o aelodau'r staff edrych ar un o bolisiau neu strategaethau'r cwmni a'i gofleidio. Yn nes ymlaen, daeth y grwpiau yn ôl at y tîm i 'werthu' y polisi/strategaeth roedden nhw'n gyfrifol amdano. Roedd hyn yn cynnwys Strategaeth yr Iaith Gymraeg. Fe wnaeth y grŵp annog pawb i ganu "Calon Lân" fel pe baent yn cefnogi tîm rygbi Cymru fel rhan o Bencampwriaeth y Chwe Gwlad.

Annog a Chanmol Staff

Mae rhai darparwyr yn annog eu staff i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gwrdd â dysgwyr a/neu gwsmeriaid a'u croesawu naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Mae'r sawl sy'n gwneud hynny yn cael eu canmol mewn adolygiadau perfformiad a gwerthusiadau blynyddol.

Y Gymraeg/Dwyieithrwydd fel Eitem Sefydlog ar yr Agenda

Er mwyn i'r holl staff ystyried yr iaith Gymraeg/dwyieithrwydd, mae rhai darparwyr wedi'u gwneud yn eitem sefydlog ar yr agenda mewn cyfarfodydd tîm neu gyfarfodydd rheolwyr. Y nod yw sicrhau bod yr holl staff yn cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu darpariaeth ddwyieithog a bod hynny'n cael ei gyfrif yn bwysig bob amser.

Geiriau a Thermau Cymraeg

Gair Cymraeg y Diwrnod

Mae Gair Cymraeg y Diwrnod yn gallu gwneud i aelodau'r staff, yn ogystal â'r dysgwyr, edrych yn fwy cadarnhaol ar yr iaith Gymraeg gan eu bod yn dysgu ychydig bach bob dydd. Os hoffech wybod rhagor, ewch i'r adran Cynnwys Dysgwyr ac edrych ar [Gair Cymraeg y Diwrnod](#).

Dydd Mercher Cymraeg

Mae staff a dysgwyr yn cael eu hannog i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg ar ddyddiau Mercher. Mae'n gwneud defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith yn fwy o hwyl. Os hoffech wybod rhagor, ewch i'r adran Cynnwys Dysgwyr ac edrych ar [Dydd Mercher Cymraeg](#).

Fflachgardiau

Mae rhai darparwyr yn defnyddio, neu'n bwriadu defnyddio, set o fflachgardiau'n dangos ymadroddion defnyddiol y gall tiwtoriaid ac aseswyr eu defnyddio i gynnwys y Gymraeg yn rhaglenni eu dysgwyr. Mae hyn yn dangos i ddysgwyr bod eu haseswyr di-Gymraeg yn gwneud ymdrech i ddefnyddio'r iaith, a gallai hynny annog y dysgwyr i wneud mwy o ddefnydd ohoni.

Dyma rai ymadroddion y gellid eu defnyddio: Bore da (Good Morning), Prynawn da (Good Afternoon), Noswaith dda (Good Evening), Sut wyt ti heddiw? (How are you today?) i enwi dim ond rhai.

Llyfrau Ymadroddion Poced

Mae rhai darparwyr yn defnyddio llyfrau ymadroddion gyda'u dysgwyr ([Poster Ymadroddion Dwyieithog/Geirfaoedd](#) yn yr adran Cynnwys Dysgwyr); ond gall y rhain helpu staff i ddefnyddio mwy o Gymraeg hefyd.

- Mae aelodau staff y VSP (y Vocational Skills Partnership) yn defnyddio llyfryn poced o ymadroddion gan Brifysgol Caerdydd, sydd ag ymadroddion sector-benodol i helpu staff a dysgwyr.

Recriwtio a Chadw Staff

Denu Staff sy'n Siarad Cymraeg

Gan fod prinder aseswyr a dilyswyr sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru, mae rhai darparwyr wedi penderfynu ei bod yn bwysig denu cynifer o siaradwyr Cymraeg ag y bo modd i weithio iddynt (naill ai pan fydd rhywun yn gadael neu yn ychwanegol). Felly, maent yn nodi bod y gallu i siarad Cymraeg yn sgil hanfodol.

- Mae Coleg Sir Gâr yn nodi bod y Gymraeg yn Hanfodol mewn llawer o'i hysbysebion swyddi.

Dangosyddion Cymraeg yn y Gweithle

Mae rhai darparwyr yn defnyddio '[Dangosyddion Cymraeg yn y Gweithle](#)' (o dan Arferion Da Sefydliadol) i bennu lefel sgiliau Cymraeg aelod o staff (neu ddarpar aelod o'r staff) er mwyn cynnal y sgiliau yn yr iaith.

Gellir defnyddio'r ddyfais ar-lein DDI-DÂL hon cyn, neu ar ôl, trafod sgiliau Cymraeg aelod o'r staff mewn Gwerthusiad Blynyddol neu mewn cyfarfod DPP. Os dangosir bryd hynny bod y Gymraeg yn sgil ychwanegol, gallai hynny annog aelod o'r staff i gymryd rhan mewn hyfforddiant iaith ychwanegol i feithrin ei hyder, neu gallai ddechrau defnyddio'r sgiliau sydd ganddo/ganddi yn y gwaith.

Ymgysylltu â Chyflogwyr

Dyma enghreifftiau o'r hyn y mae rhai darparwyr yn ei wneud i hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg a neu'r diwylliant Cymreig ymhlith cyflogwyr:

Holiadur i Gyflogwyr

Yn yr un modd ag y gofynnir i ddysgwyr beth y maent yn ei hoffi a beth yr hoffent ei gael mewn Holiaduron i Ddysgwyr; mae rhai darparwyr wedi creu a dosbarthu holiaduron i gyflogwyr i ofyn am eu syniadau a'u gofynion am yr iaith Gymraeg.

- *Aeth A4e Cymru ati i greu Holiadur Datblygu'r Gymraeg i'w anfon i gyflogwyr yn gofyn beth oedd eu gofynion ar y pryd a'r gofynion yr oeddent yn eu disgwyl ar gyfer y Gymraeg yn eu sefydliad. Roedd disgwyl i'r holiadur hwn dynnu sylw rhai cyflogwyr at y Gymraeg a'u gwneud yn fwy ymwybodol o anghenion eu staff a manteision defnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u gwaith bob dydd.*

Sgyrsiau gan Entrepreneuriaid

Mae rhai darparwyr yn gwahodd entrepreneuriaid Cymraeg eu hiaith i siarad â'r dysgwyr a dangos sut y maent wedi llwyddo a sut y mae'r Gymraeg wedi effeithio ar eu gwaith.

Sicrhau Lleoliadau Gwaith trwy Gyfrwng y Gymraeg

Er mwyn annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, mae rhai darparwyr yn helpu dysgwyr i sicrhau lleoliadau gwaith Cymraeg neu ddwyieithog er mwyn cael cyfle i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle. Yn ogystal â gwneud y dysgwyr yn fwy ymwybodol o'r Gymraeg yn y gweithle, mae'n rhoi hwb i gyflogwyr sy'n gefnogol i'r iaith Gymraeg ac yn tynnu sylw at y defnydd a wneir o'r iaith.

- *Gofynnodd Portal Training i ACT Training ganfod dysgwr oedd yn siarad Cymraeg i gychwyn ar leoliad gwaith gyda nhw. Daeth ACT o hyd i ddysgwr oedd yn siarad Cymraeg ac fe wnaeth mor dda ar y lleoliad fel eu bod wedi'i gyflogi wedyn.*

Cymorth Cyfieithu

Mae rhai darparwyr yn helpu busnesau bach trwy roi cymorth iddynt gyfieithu rhai o'u dogfennau pwysig.

- *Mae Cwmni Hyfforddiant Cambrian wedi cefnogi rhai cyflogwyr y maent yn cydweithio â nhw i gyfieithu bwydleni ar gyfer eu bwytai.*

Cyfathrebu yn eich Dewis Iaith

Mae rhai darparwyr yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu â chyflogwyr yn eu dewis iaith, hyd yn oed os nad oes ganddynt ddysgwyr Cymraeg eu hiaith. Mae hyn yn arwydd o berthynas dda gyda'r cyflogwr a gall helpu i ddenu dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn y dyfodol.

- *Mae gan Gwmni Hyfforddiant Cambrian asesydd sy'n siarad Cymraeg â landlord tafarn yn ardal Llanelli er nad oes yr un o'r dysgwyr yn siarad Cymraeg. Mae'n well gan y cyflogwr siarad Cymraeg ac mae'n awyddus iawn i helpu ei staff i ddysgu Cymraeg.*

Hyfforddiant yn y Gymraeg i Gyflogwyr

Mae rhai darparwyr wedi sylweddoli fod rhai cyflogwyr eisiau cymorth ac hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer eu staff nhw; felly maent wedi dechrau cynnig hyfforddiant iaith iddynt.

- Mae Coleg Cambria yn cydweithio â banc NatWest yn Wrecsam i ddysgu Cymraeg i'w staff. Y nod yw ehangu hyn i ragor o ganghennau NatWest yn y gogledd ac yna i rannau eraill o Gymru.

Trwy gynnig yr hyfforddiant hwn, gall y cyflogwr ddangos diddordeb mewn cyfleoedd eraill ar gyfer hyfforddiant yn y rhwydwaith darparwyr, fel Prentisiaethau.

Digwyddiadau Brandio Busnesau

Mae Busnes Cymru wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus gyda'r nod o feithrin ethos Cymreig mewn busnesau yng Nghymru. Y nod yw annog rhagor o sefydliadau (bach a mawr) i fabwysiadu dull newydd o frandio sy'n cyfeirio at eu treftadaeth Gymreig a'u Cymreictod.

Lansiwyd cynllun .cymru a .wales yn nigwyddiad Brand Busnes cyntaf Busnes Cymru. Y syniad yw bod busnesau yng Nghymru'n mabwysiadu enw parth .cymru a/neu .wales yn hytrach na .co.uk neu .com. Y nod yw meithrin brand Cymreig a phresenoldeb ar-lein i Gymru. Cewch ragor o wybodaeth yn: <http://eincartrefarlein.cymru>

Caiff darparwyr dysgu seiliedig ar waith eu hannog i sôn wrth y cyflogwyr y maent yn cydweithio â nhw am fanteision cael brand Cymreig.



Arferion Da ar gyfer Sefydliadau

Dyma rai arferion a allai helpu sefydliadau i wella'u hethos Cymreig/dwyieithog cyffredinol a gwella'r syniad sydd gan bobl o'r tu allan am y sefydliad.

Cyfathrebu Mewnol

Hysbysfwrdd Cymraeg/Cymreig ar Bob Safle

Mae gan rai darparwyr aml-safle hysbysfwrdd ar gyfer yr iaith Gymraeg a/neu'r diwylliant Cymreig ar bob safle fel y gellir rhannu arferion da un safle ar safleoedd eraill hefyd.

- *Aeth Pencampwr Cymraeg ACT Training ati i osod Hysbysfwrdd Cymraeg ar bob un o safleoedd ACT er mwyn helpu staff a dysgwyr i ddysgu beth sy'n digwydd a gweld beth mae ACT yn ei wneud i ddatblygu'r iaith Gymraeg. Y nod yw rhannu'r wybodaeth i'r sefydliad cyfan, nid dim ond i bobl yn y Brif Swyddfa.*

Swyddog Cymraeg ar Bob Safle

Mae rhai darparwyr yn ystyried cael Swyddog Cymraeg ar bob safle, sef rhywun sy'n siarad Cymraeg ac a fydd yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar y safle hwnnw. Gallai'r aelod hwn o'r staff fod yn rhan o'r tîm asesu neu'r tîm gweinyddu/rheoli. Byddai pawb sy'n dymuno gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn cysylltu ag ef/hi a byddai'n gallu cynnig syniadau i'w gweithredu trwy'r sefydliad cyfan.

- *Mae gan ACT Training rywun ar bob safle sy'n gyfrifol am y Gymraeg ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd i hybu'r iaith.*

Cefnogaeth oddi uchod

Er mwyn i aseswyr a staff gweinyddol fod yn barod i hybu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, mae'n bwysig bod yr Uwch Reolwyr a/neu'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn cefnogi'r neges ac yn ei hyrwyddo. Heb y gefnogaeth hon, bydd yn anodd i'r Swyddog(ion) Datblygu'r Gymraeg gyflwyno mentrau newydd i ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg/ddwyieithog. Felly, mae'n amlwg fod darparwyr sy'n cael cefnogaeth yr uwch reolwyr mewn sefyllfa fwy manteisiol na'r rhai sydd heb y gefnogaeth hon.

Cyfathrebu Allanol

Derbynnydd Dwyieithog a/neu Neges Ffôn Ddwyieithog

Mae gan lawer o ddarparwyr dderbynnydd dwyieithog i ddelio ag ymholiadau yn y ddwy iaith. Mae hyn yn dangos cefnogaeth y darparwr i'r iaith Gymraeg a'u hagwedd gadarnhaol at ddelio â chwsmeriaid/dysgwyr yn eu dewis iaith.

Yn ogystal, mae gan lawer o ddarparwyr opsiwn Cymraeg/dwyieithog ar eu gwasanaethau ateb ffôn awtomatig fel y gall cwsmer/dysgwr siarad Cymraeg os yw'n dymuno.

- *Mae gan Aspiration Training dderbynnydd dwyieithog i gwrdd ag ymwelwyr ac i ateb ymholiadau ffôn yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae hyn yn dangos i'r cwsmer/dysgwr fod Aspiration Training yn gwerthfawrogi'r iaith Gymraeg ac yn barod i bobl gyfathrebu yn y naill iaith neu'r llall.*

Bathodynau 'Iaith Gwaith'

Cyflwynwyd y Cynllun 'Iaith Gwaith' gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac erbyn hyn mae'n cael ei hyrwyddo gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r cynllun yn annog staff a sefydliadau sy'n gallu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg i wisgo bathodyn neu linyr gwddf 'Cymraeg' (a dangos poster 'Cymraeg') gan obeithio y bydd hyn yn annog cwsmeriaid a/neu ddysgwyr i siarad Cymraeg gyda'r aelodau hynny o'r staff.

Mae hyn yn golygu bod mwy o Gymraeg i'w glywed yn y sefydliad ac mae'n annog pobl sy'n gallu siarad ychydig o Gymraeg i roi cynnig arni; gall annog pobl ddi-Gymraeg i ddysgu hefyd.



Gallwch archebu adnoddau 'Iaith Gwaith' o wefan Comisiynydd y Gymraeg.
<http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/English/Commissioner/Pages/ordercymrbadges.aspx>

Os hoffech gymorth gan dîm 'Hybu' y Comisiynydd y Gymraeg, ewch i:
<http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/hybu/cy/hafan/Pages/hafan.aspx>

Ymgyrch 'Cymraeg' a #pethaubychain

Yn yr un modd, lansiodd Llywodraeth Cymru eu hymgyrch 'Cymraeg' yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli. Nod y bathodynau 'Cymraeg' a 'Dysgu Cymraeg' yw annog rhagor o bobl yng Nghymru i wisgo'r bathodyn ac i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg ar bob cyfle.



Cewch wybod rhagor yma: <http://gov.wales/topics/welshlanguage/promoting/pethau-bychain-do-the-little-things/?skip=1&lang=cy>

Dechrau Cyfathrebu'n Ddwieithog

Mae'n dda dechrau cyfathrebu â dysgwr/cwsmer newydd yn ddwyieithog er mwyn rhoi cyfle iddo/iddi ddewis pa iaith y mae am ei siarad.

Rhoi'r Gymraeg yn Gyntaf wrth Gyfathrebu

Mae rhai darparwyr wedi dewis rhoi'r Gymraeg yn gyntaf wrth gyfathrebu bob amser er mwyn dangos cefnogaeth y sefydliad i'r Gymraeg fel un o ieithoedd swyddogol Cymru.

- Mae gan Goleg Cambria bolisi o roi'r Gymraeg yn gyntaf wrth gyfathrebu.

Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol

Mae llawer o ddarparwyr yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel Facebook a/neu Twitter i gynnwys dysgwyr, staff a chyflogwyr

Mae sefydliadau ac unigolion yn gwneud mwy a mwy o ddefnyddio o'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu; felly mae eu defnyddio i bostio negeseuon am gyrsiau a digwyddiadau yn ddyfais farchnata ddi-dâl sy'n gallu denu mwy o ddiddordeb na dulliau hysbysebu eraill, drutach.

Gofalwch ddefnyddio'r Gymraeg i ddenu cwsmeriaid sy'n dewis siarad Cymraeg.




Llofnodion Dwyieithog ar Negeseuon Ebst

Dyma ffordd syml o ddangos i randdeiliaid, mewnol ac allanol, bod y sefydliad yn cefnogi'r iaith Gymraeg ac yn hybu dwyieithrwydd. Gellir gwneud hyn hyd yn oed os nad yw'r aelod o'r staff yn siarad Cymraeg.

Baner 'Cymraeg' ar Llofnodion Ebst

Gallai aelodau o'r staff sy'n teimlo'n gyfforddus yn cyfathrebu yn y Gymraeg roi llun ar eu llofnod ebst sy'n gwahodd pobl i gyfathrebu â nhw yn Gymraeg neu Saesneg. Gall hyn annog y sawl sy'n derbyn y neges i ateb yn Gymraeg.



Mae rhai pobl yn defnyddio'r logo 'Cymraeg #PethauBychain' yn lle hynny:



Brandio a Delwedd

Arwyddion Dwyieithog

Yn yr un modd ag y ceir arwyddion ffordd dwyieithog yng Nghymru, mae'n arfer da i arwyddion eich sefydliad fod yn Gymraeg. Mae'n bwysig cofio'r arweiniad a welir yn Safonau'r Iaith Gymraeg sy'n dweud "Rhaid peidio â thrin testun Cymraeg ar arwyddion yn llai ffafriol na'r testun Saesneg o ran ffont, fformat, lliw, maint, eglurder ac amlygrwydd."

Gwefan Ddwyieithog

Fel gyda'r Arwyddion Dwyieithog, nodir yn Safonau'r Iaith Gymraeg: "Rhaid i bob tudalen we fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran ffont, fformat, lliw, maint, eglurder ac amlygrwydd". Mae'r un peth yn wir am bob tudalen newydd ar y wefan. Cyfrifir ei fod yn Arfer Gorau i gael Gwefan Ddwyieithog.

- Mae gwefan Cwmni Hyfforddiant Cambrian ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r Cwmni hyd yn oed wedi dweud y bydd eu datganiadau i'r wasg i'w gweld yn Gymraeg a Saesneg ar eu gwefan er mai dim ond yn Saesneg y mae llawer ohonynt yn ymddangos yn y cyfryngau.

Negeseuon Dwyieithog ar Sgriniau mewn Digwyddiadau

Yn ogystal â chyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg, mae rhai darparwyr wedi gweld ei bod yn bwysig cael ethos dwyieithog mewn digwyddiadau er mwyn dangos eu bod yn cefnogi'r iaith Gymraeg ac yn gallu cynnig gwasanaeth dwyieithog.

- Mae ISA Training yn sicrhau bod y negeseuon ar y sgriniau yn Salon Cymru yn ddwyieithog. Mae hyn yn dangos bod ISA Training yn gwmni Cymreig sy'n falch o'i Gymreictod ac yn cefnogi'r iaith Gymraeg.

Comisiynydd y Gymraeg

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi dod yn lle Bwrdd yr Iaith Gymraeg a hi sy'n gyfrifol am fonitro sefydliadau yng Nghymru sy'n cael arian cyhoeddus i sicrhau nad ydynt yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ceir rhagor o wybodaeth yn: <http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Pages/Hafan.aspx>

Cynllun Iaith Statudol

Mae'n rhaid i bob Sefydliad Addysg Bellach a ariannir gan yr Awdurdod Lleol weithredu Cynllun Iaith Gymraeg. Felly, mae pob Coleg Addysg Bellach yng Nghymru wedi paratoi Cynllun Iaith Gymraeg ac yn ei ddiweddarau'n rheolaidd. Maent hefyd yn cyflwyno Adroddiadau Blynyddol i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Cynllun Iaith Gymraeg Gwirfoddol

Mae Cynllun Iaith Gymraeg yn ddogfen gan sefydliadu sy'n dangos sut y bwriadant drin yr iaith Gymraeg; a sut y maent yn mynd i geisio trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Er ei bod yn rhaid i Sefydliadau Addysg Bellach gael Cynllun Iaith Gymraeg, mae hefyd yn arfer da i gyrrff annibynnol sy'n darparu hyfforddiant dysgu seiliedig ar waith gael Cynllun Iaith Gymraeg yn dangos sut y byddant yn trin y ddwy iaith yn gyfartal.

- *Cyflwynodd Cwmni Hyfforddiant Cambrian a Hyfforddiant Arfon Dwyfor Gynllun Iaith Gymraeg yn unol â gofynion Bwrdd yr Iaith Gymraeg, hyd yn oed pan mai dim ond Polisi Iaith Gymraeg oedd yn ofynnol fel rhan o'u contract gyda Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn dangos eu hymroddiad i drin yr iaith Gymraeg yn gyfartal a'i datblygu yn eu sefydliadau.*

Cydweithio â Chomisiynydd y Gymraeg

Hyd yn oed heb Gynllun Iaith Gymraeg na Chynllun Iaith Gymraeg Gwirfoddol, mae rhai darparwyr wedi penderfynu cydweithio'n agos â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i ddatblygu'r iaith Gymraeg yn eu sefydliad.

- *Mae ACT Training wedi bod mewn cysylltiad â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn rheolaidd er mwyn gwella'r ffordd y datblygir cyfleoedd yn yr iaith Gymraeg ar gyfer staff a dysgwyr.*

Mae gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg Dîm Hybu a Hwyluso ac Is-wefan Hybu'r Gymraeg i geisio cefnogi sefydliadau yng Nghymru nad oes raid iddynt gydymffurfio â'r Safonau Iaith i wella'u darpariaeth yn y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys holiadur i'w helpu i greu cynlluniau gweithredu pwrpasol. Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth:

<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/hybu/cy/hafan/Pages/hafan.aspx>

Cydweithio

Cydweithio â Menter Iaith

Mae rhai darparwyr wedi dechrau gweithio gyda Menter Iaith leol ar weithgareddau Cymraeg. Mae hyn yn hybu'r iaith ac yn ei gwneud yn hwyl ac mae'n golygu y gall staff a dysgwyr gwrdd â phobl eraill yn eu cymunedau a fyddai'n hoffi gwneud pethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Cewch wybod rhagor am eich Menter Iaith leol yn: <http://www.mentrauiath.cymru>

Defnyddio'r Hyrwyddwr Dwyieithrwydd Dysgu Seiliedig ar Waith

Cyfrifir ei bod yn arfer da i ddarparwyr hyfforddiant wneud defnydd llawn o'r Hyrwyddwr Dwyieithrwydd DSW a'r wybodaeth sydd ar gael.

Mae'r Hyrwyddwr Dwyieithrwydd DSW wedi ffurfio dau grŵp o 'Bencampwyr Cymraeg' i drafod a gwella'r ddarpariaeth Gymraeg/ddwyieithog ym maes dysgu seiliedig ar waith yn ne a gogledd Cymru. Dylai'r darparwyr sicrhau bod o leiaf un cynrychiolydd o'u consortiwm ym mhob cyfarfod.

Mae'r Hyrwyddwr Dwyieithrwydd yn anfon newyddion trwy neges ebost wythnosol NTfW. Yn ogystal, mae gan yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd dudalennau penodol yn 'Adran Aelodau' NTfW. I fynd i'r 'Adran Aelodau', dilynwch y ddolen isod: <http://www.members.ntfw.org>

Hefyd, mae pawb yn y sector yn gallu gweld yr wybodaeth y mae'r Hyrwyddwr Dwyieithrwydd DSW wedi'i rhoi ar wefan NTfW: <https://www.ntfw.org/wel/prosiectau/hyrwyddwr-dwyieithrwydd>

Er mwyn sicrhau bod eich gwaith chi'n cael ei gynnwys yn y cylchlythyr, gofynnir i chi anfon enghreifftiau o'r arferion da at yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd DSW yn fuan.

Grŵp o 'Bencampwyr'

Mae gwaith Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg neu Hyrwyddwr Dwyieithrwydd yn anodd pan fyddwch yn gweithio ar eich pen eich hunan. Felly, yn aml, mae gan ddarparwyr sy'n gefnogol i'r iaith Gymraeg dîm, rhan amser neu lawn amser, i dreialu cynlluniau newydd i hybu ethos dwyieithog y sefydliad.

- *Mae gan ACT Training nifer o weithwyr o'r sefydliad cyfan sy'n gyfrifol am hybu datblygiad yr iaith Gymraeg. Mae hyn yn lleihau'r straen ar yr Hyrwyddwr/Pencampwr Dwyieithrwydd gan fod y bobl hyn yn gefn iddynt.*

Cyfieithu'r Safonau

Mae Safonau Cymwysterau'n ddyfais bwysig a ddefnyddir gan staff asesu a dilysu i sicrhau bod dysgwyr yn gymwys yn eu maes i gwblhau eu cymhwyster. Serch hynny, nid yw'r rhan fwyaf o safonau cymwysterau ar gael yn y Gymraeg ac mae hynny'n ei gwneud yn anodd i'r aseswyr fod yn sicr bod y dysgwr yn bodloni'r meini prawf yn y Gymraeg.

Felly, mae rhai darparwyr wedi dechrau cyfieithu'r safonau'n fewnol fel y gallant gynnig cymwysterau ychwanegol i ddysgwyr heb orfod aros i'r Corff Dyfarnu gyhoeddi'r dogfennau.

- *Mae Coleg Sir Benfro wedi cyfieithu nifer fawr o unedau er mwyn cynnig mwy i ddysgwyr sy'n dymuno cwblhau o leiaf rai o'u cymwysterau galwedigaethol yn Gymraeg.*

Gair o Rybudd: Os nad oes gennych aelod o staff sy'n gyfieithydd cymwysedig, efallai na fydd y cyfieithiad yn cyrraedd y safon ofynnol ac felly, efallai y penderfynir nad yw'r dysgwr yn cyrraedd y safon briodol pan gaiff y gwaith ei ddilysu'n allanol.

Yn yr un modd, mae rhai darparwyr wedi dechrau defnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru i gyfieithu'r safonau. Gall darparwyr ofyn i'r Corff Dyfarnu gysylltu â Llywodraeth Cymru i ofyn am gymorth ariannol i gyfieithu cymhwyster penodol. Unwaith y penderfynir ariannu'r gwaith cyfieithu, rhoddir y gymorth.

- *Gwnaeth ACT Training gais llwyddiannus i gyfieithu Cymhwyster Rheoli ILM L5 i'w ddefnyddio yn y cymhwyster STLS mewn ysgolion Gymraeg.*

Estyn

Mae'r Hyrwyddwr Dwyieithrwydd DSW mewn cysylltiad rheolaidd ag Estyn i drafod sylwadau a gofynion ynghylch yr iaith Gymraeg mewn dysgu seiliedig ar waith. O ganlyniad, mae Estyn wedi creu dogfennau gyda'r nod o roi rhagor o gefnogaeth ac arweiniad i'r rhwydwaith darparwyr DSW

o ran yr hyn y cyfrifir ei bod yn ddarpariaeth 'Ragorol' wrth ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y gweithle.

Dyma'r dogfennau:

- Canllaw i gyflawni rhagoriaeth wrth gyflwyno hyfforddiant Cymraeg mewn dysgu yn y gwaith <http://www.estyn.llyw.cymru/document/canllaw-i-gyflawni-rhagoriaeth-wrth-gyflwyno-hyfforddiant-cymraeg-mewn-dysgu-yn-y-gwaith>
- Arweiniad atodol ar gyfer arolygu'r laith Gymraeg mewn dysgu yn y gwaith http://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Supplementary_guidance_for_inspecting_Welsh_Language_in_work_based_learning_0.pdf

Rheoli Data

Archwiliadau o Sgiliau Staff yn y Gymraeg

Mae llawer o ddarparwyr wedi gweld bod ganddynt fylchau yn eu darpariaeth fel na allant gynnig amgylchedd dysgu dwyieithog i ddysgwyr mewn llawer o'u llwybrau dysgu. Yna, mae rhai darparwyr wedi mynd ymlaen i gynnal Archwiliad Sgiliau ymhlith eu staff i weld lle mae ganddynt sgiliau a beth y gellir ei wneud i gau'r bylchau.

'Dangosyddion Cymraeg yn y Gweithle'

Mae Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) ar y cyd â Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyfais ar-lein i helpu darparwyr (a chyflogwyr) i gael syniad o sgiliau Cymraeg eu staff mewn pedwar maes allweddol, sef:

- Siarad
- Gwranddo
- Darllen
- Ysgrifennu



- Mae North Wales Training wedi cofrestru i ddefnyddio dyfais ar-lein y Dangosyddion Cymraeg yn y Gweithle ac mae wedi gweld ei fod yn ddyfais ddiagnostig ddefnyddiol iawn.

Defnyddiwyd y Dangosyddion Cymraeg yn y Gweithle i ganfod addasrwydd asesydd ar gyfer y Cwrs Gloywi laith ar gyfer Tiwtoriaid ac Aseswyr a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gwneud Defnydd Llawn o LA26

Mae LA26 yn faes ar LLWR sy'n cofnodi iaith dysgu pob gweithgaredd gan bob dysgwr. Diweddarwyd y maes i alluogi darparwyr i gofnodi rhagor o'u darpariaeth Gymraeg/ddwyieithog.

Er mwyn ei ddiweddarau, mae angen i ddarparwyr gofnodi lefel yr asesiadau a wnaed yn Gymraeg neu'n ddwyieithog (ac nid canran yr adnoddau sydd ar gael).

Dyma'r opsiynau sydd ar gael:

- 00** Dim cyllid prif ffrwd.
- E1** Dysgu ac asesu yn uniaith Saesneg.
- B3** Ychydig o ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg e.e. dim ond ar lafar neu mewn rhan fechan o'r gweithgaredd dysgu. Asesu yn uniaith Saesneg.
- B2** Cryn dipyn o ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg e.e. ar lafar ac yn ysgrifenedig ac mewn llawer rhan, ond nid pob rhan, o'r gweithgaredd dysgu. Asesu yn Saesneg yn bennaf ond gall fod peth Cymraeg hefyd.
- B1** Dysgu yn ddwyieithog ac o leiaf hanner yr asesiadau sydd ar gael yn y gweithgaredd dysgu wedi'u cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg. Gellir sicrhau hyn gan ddefnyddio unrhyw fethodoleg ddysgu briodol.
- C1** Dysgu yn Gymraeg a'r holl asesiadau sydd ar gael yn y gweithgaredd dysgu wedi'u cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg.



Canllaw LLWR: <http://gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/datacollection/llwr09/?lang=en>

Gwneud Defnydd Llawn o LP67

Mae LP67 yn faes a ychwanegwyd at LLWR i gofnodi'r lefel uchaf o gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg oedd gan ddysgwyr cyn eu rhaglen dysgu seiliedig ar waith.

Er mwyn defnyddio'r wybodaeth i'w llawn botensial, bydd angen gwybod pa ddysgwyr i gyfathrebu â nhw i gynnig dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Gellir rhannu'r data a gesglir fel a ganlyn:

Cymraeg fel ail iaith

- 0** Cymraeg fel ail iaith: Lefel Cyn Mynediad
- 1** Cymhwyster Cymraeg fel ail iaith: Lefel Mynediad
- 2** Cymhwyster Cymraeg fel ail iaith: Lefel 1 e.e. TGAU D-G
- 3** Cymhwyster Cymraeg fel ail iaith: Lefel 2 e.e. TGAU A*-C
- 4** Cymhwyster Cymraeg fel ail iaith: Lefel 3 ac uwch e.e. AS, Lefel A

Cymraeg iaith gyntaf

- 5** Cymraeg iaith gyntaf: Lefel Cyn Mynediad
- 6** Cymhwyster Cymraeg iaith gyntaf: Lefel Mynediad
- 7** Cymhwyster Cymraeg iaith gyntaf: Lefel 1 e.e. TGAU D-G
- 8** Cymhwyster Cymraeg iaith gyntaf: Lefel 2 e.e. TGAU A*-C
- 9** Cymhwyster Cymraeg iaith gyntaf: Lefel 3 ac uwch e.e. AS, Lefel A

Proffilio Ieithyddol Dysgwyr

Mae rhai darparwyr wedi ceisio canfod proffil ieithyddol eu dysgwyr er mwyn canfod y ffordd orau i gwrdd â'u gofynion ieithyddol posibl.

- Gofynnodd Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg gyda darparwr yn Sir Benfro i'r dysgwyr hunanasesu eu sgiliau yn y Gymraeg o Lefel 0 i Lefel 5 (lle mae Lefel 0 yn golygu dim gallu arwyddocaol a Lefel 5 yn golygu medrus iawn) mewn pedair sgil sef Gwrando, Siarad, Darllen a Deall, ac Ysgrifennu. Yn ogystal, gofynnwyd i'r dysgwyr nodi a fyddent yn dymuno cwblhau Dim, Ychydig, neu'r Cyfan o'u cymhwyster trwy gyfrwng y Gymraeg.

O'r ffurflenni a lanwyd gan y dysgwyr, trosglwyddodd y Swyddog Datblygu yr wybodaeth i daenlen Excel, a nododd o ba ardal roedd y dysgwyr yn dod a lefel eu sgiliau, gan gynnwys sector galwedigaethol eu prif gymhwyster. Defnyddiwyd hyn i baratoi gwybodaeth graffigol a oedd yn dangos proffil ieithyddol dysgwyr mewn gwahanol ardaloedd daearyddol a sectorau galwedigaethol yn ne, de-ddwyrain, a de-orllewin a chanolbarth Cymru. Felly, roedd y sefydliad yn gallu gweld lle'r oedd y galw uchaf am ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog a defnyddio hyn i weld lle'r oedd angen staff i gwrdd â'r galw.

Mae rhai darparwyr yn defnyddio adroddiadau o Maytas a/neu LLWR i ganfod gallu dysgwyr i siarad Cymraeg mewn perthynas â'r ysgol ddiwethaf y bu ynddi. Mae hyn yn eu galluogi i wybod pa ddysgwyr i siarad â nhw ynghylch cyfleoedd dysgu dwyieithog.

Olrhain y Ddarpariaeth

Gan nad yw rhai pecynnau meddalwedd a ddefnyddir gan sefydliadau mor hyblyg o ran cipio rhai mathau o ddata, mae gan rai darparwyr ddogfennau olrhain ychwanegol er mwyn cofnodi yr hyn a gyflawnir trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

- Mae Coleg Sir Gâr yn defnyddio dwy ddyfais olrhain, un ar gyfer aseswyr a'r llall ar gyfer rheolwyr fel y gall olrhain beth a wneir gyda'r dysgwyr a beth y mae pob asesydd yn ei wneud.

Cyfranogiad Cymunedol

Cymryd rhan mewn Dyddiau/Digwyddiadau Cymraeg

Er mwyn helpu i hybu Cymru a'i hiaith a'i diwylliant, mae llawer o ddarparwyr yn cymryd rhan mewn digwyddiadau blynyddol a digwyddiadau unigol i hyrwyddo'r Gymraeg a Chymru.

- Mae LLETS Dinas a Sir Abertawe yn cymryd rhan yn niwrnod 'Shwmae Su'mae' ar 15 Hydref bob blwyddyn ac fe gymerodd ran yn 'Niwrnod y Bathodyn' (Diwrnod bathodyn iaith Gwaith) ar 1 Gorffennaf. Mae'r ddau ddiwrnod hyn yn ceisio annog pobl i ddefnyddio o leiaf ychydig o Gymraeg.
- Bu gan ddarparwyr fel Coleg Cambria, Grŵp Llandrillo Menai, Grŵp NPTC a Choleg Gŵyr Abertawe stondinau yn eu heisteddfodau lleol i ddangos sgiliau a gallu dysgwyr presennol i ddarpar ddysgwyr a'u rhieni/gwarcheidwaid.

Mae llawer o ddarparwyr wedi cymryd rhan yng ngŵyl Tafwyl yng Nghastell Caerdydd dros y blynyddoedd diwethaf.

Arferion Da ar Lefel Consortiwm

Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg

Mae rhai o'r consortia yng Nghymru wedi ffurfio grŵp i drafod sefyllfa darpariaeth yr iaith Gymraeg ac maent wedi llunio cynlluniau gweithredu a chyfleoedd datblygu trwy rannu arferion da ac adnoddau gyda'r partneriaid.

- Sefydlodd Consortiwm B-wbl (Coleg Sir Benfro) grŵp iaith Gymraeg cyn DSW3 fel bod y consortiwm yn barod i fynd ar ddechrau'r cyfnod contractio newydd. Bu'r grŵp yn llwyddiannus yn rhannu arferion da ac yn gweithredu cynlluniau newydd trwy'r grŵp cyfan.
- Mae Consortiwm Canolbarth a Gorllewin Cymru (Hyfforddiant Ceredigion) yn cyfarfod yn rheolaidd gyda holl bartneriaid y consortiwm i drafod yr agenda ddwyieithog.
- Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Galwedigaethol (VSP) wedi ffurfio Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymraeg sy'n cynnwys, yn bennaf, aseswyr a phobl eraill sy'n angerddol am wella cyfleoedd Cymraeg yn VSP. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi cychwyn Cynllun Gweithredu Cymraeg i'w fonitro'n rheolaidd.

Archwiliad Cymraeg/ADCDF

Bydd Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg yn cyfarfod ar safle pob un o'r partneriaid yn eu tro ac yn cynnal archwiliad o ethos Cymraeg/dwyieithog ac ADCDF y safle lle cynhelir y cyfarfod.

- Mae Consortiwm Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnal yr archwiliad ym mhob cyfarfod chwarterol. Mae'r grŵp yn mynd o gwmpas y safle i weld pa arwyddion Cymraeg/ADCDF sydd i'w gweld a beth a wneir i hybu ethos Cymreig y safle.

Rhannu Arferion Da/Adnoddau

Weithiau, mae partneriaid cyflenwi sy'n aelodau o'r un consortiwm yn fodlon rhannu arferion da eu sefydliad nhw a rhannu adnoddau sydd wedi'u creu gan un o'r partneriaid gyda phawb arall. Mae hyn yn berthynas weithiol dda.

- Aeth Coleg Sir Gâr (B-wbl) ati i gynhyrchu posteri sector-benodol ar gyfer eu dysgwyr a rhannu'r rhain gyda darparwyr eraill yn y consortiwm.
- Mae Consortiwm Grŵp Llandrillo Menai yn cydweithio'n agos â Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd y consortiwm i rannu arferion da.

Cynnwys yr holl Bartneriaid Cyflenwi a'r Is-gontractwyr

Mae rhai consortia'n cynnal cyfarfodydd grŵp gyda'u holl bartneriaid cyflenwi ac is-gontractwyr er mwyn rhannu gwybodaeth am y ddarpariaeth Gymraeg/ddwyieithog yn haws ac yn fwy effeithiol.

- *Mae ACT Training yn cynnal cyfarfodydd â'u holl bartneriaid cyflenwi ac is-gontractwyr i drafod yr agenda mewn perthynas â'r Gymraeg.*
- *Mae'r Gynghrair Ansawdd Sgiliau yn cyfarfod yn aml i drafod dwyieithrwydd. Mae'n fforwm da i rannu syniadau ac i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu dros y consortiwm cyfan.*

Hyfforddiant yn y Gymraeg trwy Gonsortiw Cyfan

Rhoddodd rhai darparwyr gyfle i bartneriaid yn eu consortiwm gymryd rhan mewn hyfforddiant yn y Gymraeg.

- *Mae Coleg Caerdydd a'r Fro (y Gynghrair Ansawdd Sgiliau) wedi cynnig cwrs preswyl deuddydd ar gyfer staff yn eu consortiwm i wella'u sgiliau yn y Gymraeg.*
- *Caniataodd Coleg Sir Benfro (B-wbl) i staff o'r consortiwm fynd i hyfforddiant 'Y Gymraeg mewn Cymdeithas Ddwyieithog' er mwyn hybu ymwybyddiaeth o'r laith.*

Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gymraeg yn y Consortiwm

Erbyn hyn mae'n rhaid i ddalwyr contractau a gomisiynir yng Nghymru gael Cynllun Gweithredu'r laith Gymraeg yn ei le ar gyfer DSW4; fodd bynnag, mae rhai consortia yng Nghymru wedi sicrhau bod ganddynt Gynllun Gweithredu'r laith Gymraeg ar gyfer y consortiwm cyfan. Gwnaed hyn fel bod y consortiwm cyfan yn gweithio tuag at yr un nodau ac amcanion.

- *Mae gan y Consortiwm B-wbl a'r Bartneriaeth Sgiliau Galwedigaethol (VSP) Gynllun Gweithredu'r laith Gymraeg ar gyfer y consortiwm cyfan ac mae'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.*

Un Brand Craidd

Ar ôl creu consortiwm neu uno sefydliadau, mae'n bwysig sicrhau bod mater brandio'n cael ei ystyried fel bod pawb yn mynd i'r un cyfeiriad.

- *Pan ffurfiwyd Coleg Cambria, buont yn cydweithio i sicrhau bod ganddynt un brand craidd. Sicrhawyd bod y Gymraeg yn cael blaenoriaeth ac yn ymddangos gyntaf ar bob gwefan ac ym mhob cyhoeddiad.*

Trosglwyddo Dysgwyr a Chyd-gyflenwi

Er mwyn i gonsortiw gyrraedd ei lawn botensial, dylai weithio ar ei gryfderau (ble bynnag y bônt).

- *Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Galwedigaethol (VSP) yn trosglwyddo dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn ei chonsortiw i fannau lle ceir tiwtor neu asesydd sy'n siarad Cymraeg ac sy'n gallu cefnogi'r dysgwr i wrth weithio tuag at ei gymwysterau. Yn ogystal, mae'r VSP yn gweithio ar eu model cyd-gyflenwi er mwyn diwallu anghenion eu dysgwyr yn y ffordd orau.*
- *Bu gan gonsortiw Hyfforddiant Torfaen raglen laith Gwaith gwerth £2m yn cyflenwi cyrsiau Cymraeg/dwyieithog ar nifer o lwybrau galwedigaethol i tua 600 o brentisiaid ledled Cymru. Gwnaed llawer o'r gwaith hwn gan CADCentreUK.*

Rhannu Staff

Mae rhai consortia wedi penderfynu rhannu staff, er lles y consortiwm cyfan, er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gallu elwa ar fwy o ddarpariaeth nag a wnaent fel arall.

- Mae Hyfforddiant Arfon Dwyfor yn rhannu Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol (IQA) gyda North Wales Training. Cyfrifir bod hyn yn arfer rhagorol gan ei fod yn helpu'r rhwydwaith i gynyddu'r cyfleoedd dysgu i ragoro ddysgwyr.

Mae'r Hyrwyddwr Dwyieithrwydd DSW yn casglu gwybodaeth am staff a all ddysgu, asesu a dilysu gwaith yn y Gymraeg ledled Cymru. Y nod yw creu cronfa o Aseswyr/Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol a fydd yn galluogi darparwyr i gynnig rhagor o lwybrau i ddysgwyr o asesu i ddilysu mewnol ac allanol.

Partneriaethau â Mudiadau Cymraeg

Mae rhai consortia wedi penderfynu gwella'u darpariaeth trwy sefydlu contractau gyda mudiadau Cymraeg a fydd yn gallu eu helpu i gyflenwi rhagor o gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg i ddysgwyr.

- Mae ACT Training yn is-gontractio i Urdd Gobaith Cymru i gyflenwi cymwysterau ym maes Chwaraeon a Lletygarwch. Yn ogystal, mae gan ACT berthynas weithiol dda gyda Menter Iaith Caerdydd a ddaeth i ddiwrnod hwyl staff ACT.

Cyfleoedd i Gydweithio yn y Dyfodol

Er mwyn cydweithio'n well, gallai rhagor o ddarparwyr gydweithio'n agosach â sefydliadau sy'n gallu cynnig rhagor o hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg i gefnogi eu darpariaeth eu hunain. Mae'r mudiadau hyn yn cynnwys Cam wrth Gam (rhan o'r Mudiad Meithrin), Urdd Gobaith Cymru a CADCentre UK.

Dolenni:

Cam wrth Gam	www.meithrin.cymru/cam-wrth-gam-cy
Urdd Gobaith Cymru	www.urdd.cymru
CADCentre UK	www.cadcentreuk.com

Astudiaethau Achos

Astudiaeth Achos: Coleg Sir Benfro



Cysylltu â dysgwyr o Ysgolion Cymraeg – Coleg Sir Benfro

‘Dyfal donc a dyrr y garreg’

Mae Bethan yn gweithio mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn ne orllewin Cymru fel cynorthwydd dosbarth. Gan nad oedd ganddi gymwysterau priodol ar gyfer y swydd hon, fe wnaeth gofrestru ar gwrs CACHE NVQ Cefnogi'r Dysgu a'r Addysgu mewn Ysgolion Lefel 3. Fe wnaeth ei haseswraig gyfarfod â hi ac yn ystod y cyfarfod cychwynnol hwn fe wnaethon nhw drafod anghenion ieithyddol Bethan. Ceisiodd yr aseswraig ei hannog i ystyried gwneud un neu ddwy uned drwy gyfrwng y Gymraeg ond nid oedd Bethan yn teimlo bod ei sgiliau Cymraeg ysgrifenedig yn ddigon da i allu cwblhau asesiadau ffurfiol yn Gymraeg. Felly, fe wnaeth yr aseswraig ofyn i Bethan ystyried y peth.

Yn y cyfamser, cysylltodd yr aseswraig â Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg y Coleg gan ofyn a fyddai'n gallu dod gyda hi i gwrdd â Bethan yn eu hail gyfarfod er mwyn trafod y Gymraeg a thrafod y gefnogaeth oedd ar gael yn Gymraeg a cheisio dwyn perswâd ar yr ymgeisydd i wneud uned neu ddwy yn Gymraeg.

Felly, cafwyd cyfarfod gyda Bethan gyda'r aseswraig a'r Swyddog Iaith yn bresennol a thrafodwyd y posibilrwydd o Bethan yn cwblhau rhai unedau yn Gymraeg. Ar ôl trafod a cheisio argyhoeddi Bethan y byddai hyn yn gyfle da iawn iddi i ailafael yn ei sgiliau Cymraeg a'u datblygu ymhellach a hithau'n gweithio mewn amgylchedd gwaith cyfrwng Cymraeg, cytunodd Bethan i gwblhau 4 uned yn Gymraeg! Roedd pawb yn hapus dros ben gyda'r canlyniad hwn a'r aseswraig wrth ei bodd bod ganddi o'r diwedd ymgeisydd a fyddai'n cwblhau rhai unedau yn Gymraeg. Rhaid ychwanegu yma mai ychydig o Gymraeg oedd gan yr aseswraig yma ond yn mynychu gwersi Cymraeg yn y Coleg er mwyn gwella'i Chymraeg.

Darparwyd Bethan â'r deunyddiau cyfrwng Cymraeg fyddai angen arni i'w chynorthwyo i gyflwyno'i gwaith yn Gymraeg. Pan gyflwynodd Bethan ei gwaith yn Gymraeg, fe wnaeth yr aseswraig a'r Swyddog Iaith gyfarfod a mynd drwy'r gwaith gyda'i gilydd er mwyn gwirio'r cynnwys. Marciwyd y gwaith gan y Swyddog Iaith o ran y llythrennedd. Rhoddwyd adborth adeiladol i Bethan ar y cynnwys a'r agweddau iaith hefyd.

Ar ôl cyflwyno'r bedwaredd uned yn Gymraeg, roedd Bethan wedi magu hyder yn ei sgiliau Cymraeg a phenderfynodd cwblhau gweddill y cymhwyster yn Gymraeg! Dyna ganlyniad bendigedig a phawb wrth eu bodd, gan gynnwys yr ysgol, gyda'r canlyniad hwn.

Astudiaeth Achos: Educ8



Partneriaeth gydag Ysgolion Cymraeg

Enw a manylion y rhanddeiliad

Sara Lewis – Anogwr Cyflogadwyedd, Educ8 Limited

Manylion a dyddiadau'r prosiect neu'r digwyddiad

Heddiw, bûm yn Ysgol Gyfun y Cymer i gynnal ffug gyfweiliadau gyda'r disgyblion fel rhan o raglen i'w paratoi at fyd gwaith. Roedd y disgyblion i gyd yn 15 neu 16 oed ac yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Roedd y ffug gyfweiliadau'n cynnwys cwestiynau cyffredinol am y bobl ifanc ac yn eu hannog i feddwl beth yr hoffent ei wneud yn y dyfodol – a oeddent yn meddwl mynd i goleg, i brifysgol, dilyn Prentisiaeth neu gael swydd. Buom yn sôn am wahanol lwybrau gyrfa lle gallai'r gallu i siarad Cymraeg fod yn fanteisiol (busnes, twristiaeth, manwerthu ac ati).

Nod y diwrnod oedd annog y bobl ifanc i feddwl am eu dyfodol a dangos pa mor bwysig yw eu sgiliau yn y Gymraeg wrth iddynt ystyried mynd i fyd gwaith.

Ymateb a dyfyniadau gan un oedd yn cymryd rhan a'r rhanddeiliaid

Roedd y disgyblion yn nerfus, wrth gwrs, ond roeddent yn cyfleu eu hunain yn dda ac yn defnyddio'r Gymraeg yn rhugl. Roedd y disgyblion i gyd wedi gwisgo'n smart fel pe baent yn mynd i gyfweiliad. Roedd yr ymateb a gefais gan yr athrawon a'r disgyblion yn awgrymu fy mod wedi helpu'r bobl ifanc i ddeall sut y bydd eu sgiliau yn y Gymraeg o gymorth iddynt ym myd gwaith go iawn.

Beth oedd yr effaith ar y dysgwr?

Roedd y diwrnod yn help mawr i'r bobl ifanc a rhoddodd brofiad da iddynt o gyfweiliad ar gyfer swydd go iawn. Byddant yn gallu cyfeirio at hyn pan gânt gyfweiliad go iawn ar gyfer lle mewn coleg neu brifysgol neu swydd.



My Welsh Culture Hub

Yn dilyn partneriaeth lwyddiannus gyda Vocations a Babcock Training yn datblygu 'Wellbeing Hub', gwelsom fod angen hyrwyddo Cymru a'i diwylliant wrth ein dysgwyr. Ar ôl ymchwilio i'r mathau o adnoddau yr oedd ar ddysgwyr eu hangen, aethom ati i greu gwefan syml un-stop gyda gwybodaeth, cyngor ac arweiniad am Gymru.

Mae dysgwyr yn gallu cael gwybodaeth a dealltwriaeth am ddiwylliant Cymru, ei hiaith a'i heconomi ac rydym yn rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau e.e. Tafwyl. Mae dolenni i wefannau twristiaeth, eiconau a threftadaeth a gwybodaeth am sut i wella sgiliau yn yr iaith Gymraeg ar gael yn hawdd. Mae gan y wefan ddolenni i wefannau pob awdurdod lleol yng Nghymru fel y gall dysgwyr ganfod mwy am wasanaethau a digwyddiadau yn eu cymuned leol, y Wellbeing Hub a Darparwyr Addysg a Chyflogaeth. Mae llawer wedi defnyddio'r wefan ac fe lansiwyd yr "hub" gyda phartneriaid trwy Fforwm Ansawdd NTfW.

www.mywelshculturehub.co.uk

Yn ôl yr adroddiad a gawsom gan Estyn yn ddiweddar 'Mae'r darparwr wedi rhoi mecanweithiau da ar waith ar gyfer codi ymwybyddiaeth dysgwyr o Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang (ADCDF), yr iaith Gymraeg a'i diwylliant a lles. Mae'r rhain yn cynnwys canolfannau gwe i ddysgwyr allu cael gwybodaeth gyfoes.'

Annog Dysgwyr i Ddefnyddio'u Cymraeg

Yma, yn Acorn, rydyn ni'n ceisio annog dysgwyr sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio'u sgil, gan esbonio'i bod yn rhoi mantais iddynt. Rydym yn eu hannog o'r dechrau, a thrwy gydol eu cwrs i wneud eu hadolygiadau yn Gymraeg a/neu i gyflwyno tystiolaeth yn Gymraeg ar gyfer eu cymhwyster cyfan neu ran ohono. Rydym wedi hyfforddi ein staff i drafod gyda dysgwyr sydd heb ddigon o hyder i ddefnyddio'r sgil hon ac i'w helpu i ddod dros hyn. Mae ein holl staff Sicrwydd Ansawdd a'n Cynghorwyr Hyfforddiant wedi bod ar gwrs hanner diwrnod gyda Sgiliaith ar sut i ddefnyddio'r Gymraeg wrth Asesu.

Rydym yn rhannu digwyddiadau, cyrsiau Cymraeg a gwybodaeth am y diwylliant gyda staff, dysgwyr a chyflogwyr trwy negeseuon ebost wythnosol, a thrwy drydar a chylchlythyrau. Mae ein llofnodion ebost yn ddwyieithog erbyn hyn ac rydym yn datblygu ein gwefan i gynnig rhagor o wasanaethau yn y Gymraeg. Mae ein holl ddogfennau ar gyfer dysgwyr a chyflogwyr ar gael yn ddwyieithog.

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn cynnal cyrsiau iaith Gwaith ac yn ceisio cymorth gan Gomisiynydd y Gymraeg i godi ymwybyddiaeth.

Astudiaeth Achos: Coleg Cambria (Glannau Dyfrdwy)



Paru Dysgwyr ag Aseswyr Cymraeg eu Hiaith

Enw a manylion y rhanddeiliad

Dysgwr Lefel 5

Manylion

Roedd dysgwraig Lefel 5 yn cael anhawster wrth astudio ar gyfer ei chymhwyster trwy gyfrwng y Saesneg.

Gofynnodd ei hasesydd a allwn i ei helpu trwy drafod yn Gymraeg. Rhoddodd hyn lawer mwy o hyder iddi ac roedd yn gallu mynegi'r hyn yr oedd yn ei wybod yn fwy effeithiol o lawer.

Ymateb a Dyfyniadau gan y Ddysgwraig

Mae'r ddysgwraig wedi diolch am gael cefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Beth oedd yr effaith ar y ddysgwraig?

Mae'r ddysgwraig wedi ennill ei chymhwyster ac mae'n deall y pwnc yn well o lawer na phe bai wedi'i astudio trwy gyfrwng y Saesneg.

Astudiaeth Achos: Aspiration Training (VSP)**Canfod Lleoliadau Cymraeg****Manylion y rhanddeiliad**

Meithrinfa Miri Mawr – Meithrinfa ddydd breifat Gymraeg yng Nghaerdydd.

Manylion a dyddiadau prosiect neu ddigwyddiad

Mae gan Aspiration Training Ltd (ATL) berthynas weithiol ers peth amser gydag un o'r ychydig feithrinfeydd hollol Gymraeg yng Nghaerdydd. Mae ATL wedi bod yn cynnig cymorth i staff y feithrinfa ddefnyddio'r Gymraeg i ymgymryd â chymwysterau gofal plant ers chwe blynedd. Mae'r erthygl i'r dde yn enghraifft o'r gweithiwr diweddaraf i ennill cymhwyster o Feithrinfa Miri Mawr. Defnyddiwyd ei stori ar y poster marchnata isod i ddangos gwerth gwneud cymhwyster mewn gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg gydag Aspiration Training.

**Ymateb a dyfyniadau gan un oedd yn cymryd rhan a'r rhanddeiliad**

Pan gefais i waith mewn meithrinfa Gymraeg, ro'n i'n falch iawn o glywed y gallai Aspiration Training ddod i'r feithrinfa a siarad Cymraeg â mi a fy rheolwr.

Rhan orau'r hyfforddiant oedd mynd i weithdai a chwrdd â ffrindiau newydd sy'n gweithio mewn gwahanol feithrinfeydd. Byddwn i'n sicr yn argymhell i bobl sy'n siarad Cymraeg wneud rhannau o gwrs gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg. Rwy'n falch iawn o gael bod yn weithiwr gofal plant sy'n siarad Cymraeg.

Beth oedd yr effaith ar y dysgwyr?

Mae'r dysgwyr ym Meithrinfa Miri Mawr yn elwa o gael siarad a dysgu yn eu hiaith gyntaf.

Mae'n fantais fawr i'r cyflogwr sy'n gallu sicrhau rhieni'r plant sy'n dod i'r feithrinfa y bydd yr holl waith arsylwi ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'r dysgwyr yn elwa o gael cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg, sef yr iaith y maent fwyaf cyfforddus ynddi, fel y maent wedi'i wneud trwy weddill eu haddysg.

Astudiaeth Achos: ACT Training**Canfod Lleoliadau Cymraeg**

Mae Zak King yn 17 ac mae'n gweithio fel Swyddog Gwasanaethau Gwella Ysgolion gyda Portal, ymgynghoriaeth hyfforddiant ddwyieithog yng nghanol Caerdydd.

Mae Zak yn aelod gwerthfawr a chydwybodol o dîm Portal ond, flwyddyn yn ôl, pan oedd mewn ysgol Gymraeg, Ysgol Gyfun Bro Morgannwg, nid oedd Zak mor gydwybodol ac uchelgeisiol ag y mae yn awr. "I ddweud y gwir, doeddwn i ddim yn un o'r goreuon yn yr ysgol. Roeddwn i'n aml mewn trwbwl – am dorri ar draws neu ymladd. Ychydig o lwyddiant a gefais gyda TGAU ond doeddwn i ddim yn hoffi'r ysgol a doeddwn i ddim yn deall pa les roedd yn ei wneud."

Ar ôl penderfynu peidio â mynd i'r chweched dosbarth, aeth Zak at Gyrfa Cymru am gyngor a chafodd ei gyfeirio at ACT Training. Dechreuodd Zak fynd i'w Canolfan Sgiliau yng Nghaerdydd i weithio at gymhwyster Sgiliau Gwaith Lefel 1. Mae'n amlwg bod newid lle a dull o ddysgu yn ei siwtio ac, o fewn ychydig wythnosau, cafodd Zak wybod bod cyfle am leoliad gwaith gyda Portal. "Doedd neb arall yn fy ngrŵp yn gallu siarad Cymraeg ac felly pan oedd angen rhywun dwyieithog ar Portal, roedd gen i fantais."

Cafodd Zak gyfweiliad llwyddiannus a dechreuodd ar ei waith gyda Portal sy'n cynnwys trefnu digwyddiadau, gweithio ar ddefnyddiau hyrwyddo a gohebu gyda phobl yn Gymraeg a Saesneg. "Pan ddechreuais i weithio gyda Portal, roeddwn i'n meddwl mod i wedi anghofio fy Nghymraeg. Doeddwn i ddim wedi'i siarad yn iawn ers blynyddoedd a fi oedd yr unig un oedd yn siarad Cymraeg yn y teulu. Wrth weithio i gwmni dwyieithog, daeth fy Nghymraeg yn ôl ac fe ddes i'n llawer mwy hyderus yn yr iaith wrth weithio mewn swyddfa gyda phobl ddwyieithog." Erbyn hyn, mae Zak yn gweld dwyieithrwydd fel mantais, "Doeddwn i ddim yn edrych ar y Gymraeg fel sgil cyn ymuno â Portal ond, wrth ei defnyddio bob dydd, rwy wedi newid fy marn. Os ydy'ch Cymraeg chi'n rhydlyd, holwch eich cyflogwr am gwrs gloywi achos mae'r rhan fwyaf o weithleoedd yng Nghymru yn annog hynny."

"Mae cael iaith ychwanegol yn bendant yn fuddiol. Yn fy achos i, dyna pam y ces i symud ymlaen a dechrau dringo ar ysgol fy ngyrfa."

Ar hyn o bryd, mae Zak yn gweithio tuag at NVQ Lefel 2 mewn Gweinyddu Busnes gydag ACT Training.

Astudiaeth Achos: Aspiration Training (VSP)**Cyfleoedd Dwyieithog yn y Dosbarth****Enw a manylion y rhanddeiliad**

Aspiration Training (Wales) – Cynnwys y Gymraeg wrth gyflenwi gweithdai.

Manylion a dyddiadau'r prosiect neu'r digwyddiad

Mae staff dysgu Aspiration Training wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau bod geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn cael eu cynnwys yn ein gweithdai.

Defnyddir cyflwyniadau PowerPoint i gefnogi'r gwersi wrth gyflwyno ein gweithdai. Mae'r cyflwyniadau PowerPoint wedi'u hadolygu a'u diweddarau i gynnwys geiriau Cymraeg ac i sicrhau bod y defnydd o'r iaith Gymraeg yn digwydd yn naturiol.

Examples

Bore da a croeso i'r weithdy heddiw - Good morning and welcome to today's workshop

Croeso i Aspiration Training

Amser egwyl - Break time

Nodau - Aims

Amser cinio - Dinner time

Gwaith cartref - Homework

Amcanion - Objectives

Health and Safety - Iechyd a diogelwch

Infection control - Rheoli Heintiau

Y gair Cymraeg

- Session 2 rhif (number)
- Session 3 siart (chart)
- Session 4 llythrennedd (literacy)
- Session 5 siarad (chat/talk/speak)
- Session 6 cwestiwn (question)
- Session 7 cyfrifiadur (computer)
- Session 8 dyletswydd i ofalu (duty of Care)
- Session 9 diogelu (safeguarding)
- Session 10 rhwystro heintiau (infection control)
- Session 11 nam ar y synhwyrau (sensory loss)
- Session 12 hwyl fawr (good bye)

Rydym hefyd wedi dysgu'r Anthem Cymraeg i'n dysgwyr

Yr Anthem Genedlaithol

Mae hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi,
 Gwlad beirdd a chantorion, enwogion o fri.
 Ei gwrol ryfelwyr, gwlad garwyr tra mad,
 Tros ryddid collasant eu gwaed.
 Gwlad, gwlad, pleidiol wyf i'm gwlad,
 Tra mor yn fur
 I'r bur hoff bau,
 O bydded i'r heniaith barhau

Translation

The old land of my fathers is dear to me,
 A land of poets and singers, famous people of renown.
 Its brave warriors, great patriots,
 For freedom they lost their blood.
 Country, country, I'm partial to my country,
 While the sea is a wall
 for the pure, dear country,
 O may the "old language" continue

Ymateb a dyfyniadau gan rai oedd yn cymryd rhan a'r rhanddeilaid

Mae tiwtoriaid yn cofnodi sylwadau ar adolygiadau'r dysgwyr yn Gymraeg; yna mae hyn yn cael ei gyflwyno yn ôl i'r cyflogwr.

Beth oedd yr effaith ar y dysgwr?

Mae'r dysgwyr yn dod yn fwy hyderus i sgwrsio yn Gymraeg ac i wneud hynny yn eu gweithle.

Astudiaeth Achos: Coleg Caerdydd a'r Fro

Cystadlaethau/Mentrau



Beth oedd y problem?

Roedd teimlad bod angen gwneud mwy i ddangos bod y dysgwyr yn ceisio gwella'u sgiliau Cymraeg yn unol â chwestiynau Estyn isod:

Sicrhau bod dysgwyr yn dangos agweddau cadarnhaol a mwynhad wrth ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg (cwestiwn allweddol 1.2)

Sicrhau bod darparwyr yn annog dysgwyr a staff i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar y lefel briodol fel ffordd o gyfathrebu'n anffurfiol (cwestiwn allweddol 2.4)

Manylion mentrau newydd:



Cynhaliodd y Gynghairr Ansawdd Sgiliau (QSA) ddwy gystadleuaeth yn y Gymraeg:

Enwebwch eich Arwr Cymreig – I ddathlu Dydd Gwyl Dewi, gofynnwyd i ddysgwyr enwebu eu harwr o Gymro gan roi rhesymau dros eu dewis. Cafwyd beirniaid annibynnol. Cyflwynwyd iPad Mini i'r enillydd mewn diwrnod gwobrwyo yn y ganolfan ddysgu.

Cystadleuaeth ymadroddion Cymraeg –

Cafodd dysgwyr eu hannog i ddefnyddio ymadroddion allweddol wrth adolygu eu cynnydd ac mewn tiwtorialau ac asesiadau. Pob tro roedd dysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg, byddai'r asesydd yn cadarnhau hynny trwy lofnodi a dyddio cerdyn cystadlu y dysgwyr. Ar ôl iddynt wneud hyn bum gwaith, byddai cerdyn cystadlu'r dysgwyr yn cael ei roi mewn het i ennill gwobr.

Cafodd enw'r enillydd ei dynnu ar hap ac fe gyflwynwyd iPad Mini iddo yn ei weithle.



Astudiaeth Achos: Coleg Caerdydd a'r Fro



Cystadlaethau/Mentrau

Beth oedd y canlyniad?

Tynnwyd lluniau o'r ddwy gystadleuaeth ac maent yn rhan o'r llyfryn i gyflwyno dysgwyr newydd i ddysgu seiliedig ar waith.

Cyflwynwyd gwobrau i'r enillwyr a chawsant eu cydnabod am wneud gwaith yn ddwyieithog.

Roedd y gystadleuaeth hefyd yn helpu Cymry Cymraeg iaith gyntaf i barhau i ddysgu'n ddwyieithog ar ôl cyrraedd 16.

Beth oedd yr effaith ar y dysgwyr?

Mae'r dysgwyr yn gwybod mwy am ddiwylliant Cymru. Roedd cyfle i ddysgwyr ddysgu ymadroddion Cymraeg syml i'w defnyddio yn y gweithle a dysgu tipyn o dermau newydd. Mae adnoddau ar gael ar wefan QSA ar gyfer eu holl ddysgwyr a staff.

Welsh for Learners

The QSA have provided learners with a variety of materials to enhance their learning in Welsh. These include:

- Wordsearches
- Newsletters
- Flash cards
- Posters
- Competitions
- Recipes

More information can be found on the QSA website: www.qualityskillsalliance.co.uk

Quality Skills Alliance
Cynghrair Ansawdd Sgiliau

Astudiaeth Achos: ISA Training



Ymgysylltu â'r Staff

Cyflwyno'r Strategaeth Gymraeg i'r cwmni cyfan.

Cynhaliodd ISA ddiwrnod corfforaethol oedd yn cynnwys cyflwyno'u strategaethau a'u polisiau newydd mewn ffordd hwyliog. Nod y diwrnod oedd cyflwyno'r pum strategaeth roeddem newydd eu diweddarau, yn cynnwys strategaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg. Fe wnes i rannu'r cwmni'n dimau a rhoi £10 i bob tîm i brynu props yn yr ardal i'w helpu â'u cyflwyniad neu helpu â'r prawf gwybodaeth ar ddiwedd y cyflwyniad!! (Cawsant ddwy awr i baratoi cyflwyniad 20 munud). Roeddent yn cael defnyddio offer TG neu bethau o'r swyddfa (o fewn rheswm!!)

Pwnc y Mis

Rhoddir hwn i'n holl ddysgwyr ar gyfer ADCDF. Anfonir copi at yr holl staff nad ydynt yn cyflenwi hefyd. Ym mis Mawrth, roedd Pwnc y Mis yn ymwneud â Diwylliant Cymru.



Gweithgaredd ar gyfer Diwrnod Hyfforddiant

Atodir gweithgaredd “Sillafu ac Ystyr” a gyflwynwyd y llynedd yn un o ddyddiau “Dysgu a Datblygu” ISA i fod yn adnodd ar gyfer ein Dyddiau Hyfforddiant i ddysgwyr. Cynhelir y rhain unwaith y mis yn y gwahanol ardaloedd lle rydym yn cynnig NVQs.

Sut mae'r gêm yn gweithio

Mae'r holl eiriau Saesneg yn cael eu torri allan ar wahân ac yna mae'n rhaid iddynt baru'r gair Saesneg â'r gair Cymraeg, sy'n dal yn sownd wrth yr ystyr yn Saesneg, sy'n gwneud pethau'n haws!! Yn ogystal â helpu i wella sgiliau Cymraeg y dysgwyr, mae hyn yn helpu i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd gan ddefnyddio geiriau yn eu cyd-destun, a helpu i sillafu geiriau technegol allweddol. Mae hefyd yn eu helpu i ddeall ai enw, berf ynteu ansoddair ydyw. Felly mae'n help mawr i bawb!!!

Astudiaeth Achos Grŵp Llandrillo Menai



Ymgysylltu â Chyflogwyr

Enw a manylion y rhanddeiliad

Meithrinfa Ddydd Caban Baban, Amlwch

Manylion

Mae prentisiaid wedi chwarae rhan hanfodol yn llwyddiant meithrinfa Caban Baban yn Amlwch sydd newydd ddathlu ei phen-blwydd cyntaf.

Mae'r busnes yn un o lawer sy'n elwa ar y Rhaglen Brentisiaethau sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru gyda chymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Ar hyn o bryd, mae'r ganolfan yn cyflogi wyth o ymarferwyr gofal plant, pump ohonynt ar brentisiaethau seiliedig ar waith.

Bu Coleg Menai'n cydweithio'n agos â Caban Baban i gefnogi'r prentisiaid a sicrhau eu bod yn cael yr arweiniad angenrheidiol i sicrhau eu llwyddiant.

Mae tiwtor yn ymweld â'r feithrinfa'n rheolaidd ac, yn aml, yn treulio'r diwrnod yn Caban Baban gyda'r prentisiaid. Yn ystod yr ymweliadau, maen nhw'n trafod cynnydd y prentisiaid a'r hyn y maen nhw wedi'i gyflawni, ac yn annog sgiliau dwyieithog y prentisiaid.

Ymateb y Cyflogwr

Mae'r prentisiaid yma'n elwa'n fawr iawn ar eu prentisiaethau ac mae gweld yr olwg ar eu hwynebaw wrth sylweddoli eu bod wedi ennill cymwysterau yn gwneud y cyfan yn werth chweil. Maent yn galluogi'r bobl ifanc i ganfod eu gwerth, i wireddu eu potensial, i gael boddhad ac i deimlo'n falch o'r hyn y maent wedi'i gyflawni – ac mae hyn i gyd yn wir yn Caban Baban.

Ymateb y Dysgwyr

Hyd yn oed os ydych yn credu na allwch chi wneud rhywbeth, sut rydych chi'n gwybod heb roi cynnig arni?

Astudiaeth Achos Grŵp Llandrillo Menai



Ymgysylltu â Chyflogwyr

Enw a manylion y rhanddeiliad

'Galw Gwynedd', Cyngor Gwynedd, Parc Busnes Eryri, Penrhyndeudraeth.

Manylion

Canolfan gyswllt Cyngor Gwynedd yw 'Galw Gwynedd'. Ar ôl cael ei henwi'n ganolfan gyswllt orau Prydain, mae 'Galw Gwynedd' yn cydweithio â Choleg Menai i gefnogi llawer o'i staff sy'n gwneud prentisiaethau ym maes Gwasanaethau Cwsmeriaid.

Ar hyn o bryd, mae chwech o ddysgwyr yn gweithio tuag at eu fframweithiau Lefel 2 mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid. Gyda chymorth eu rheolwr a'u hasesydd, mae pob un o'r dysgwyr yn gwneud rhan o'u gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg a rhan trwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r asesydd yn trafod gyda'r dysgwr beth sydd angen ei roi'n dystiolaeth ar gyfer pob uned yn y Gymraeg a'r Saesneg (i sicrhau y ceir dealltwriaeth lawn o'r gofynion ac i gryfhau'r ddwy iaith) ac mae'n annog pob dysgwr i wneud gwaith yn y ddwy iaith, gan roi cymorth priodol i'w alluogi i wneud hyn.

Tystiolaeth o Ymgysylltu â Chyflogwyr

Mae 'Galw Gwynedd' yn gwmni dwyieithog sy'n hybu'r defnydd o'r ddwy iaith ac yn ceisio sicrhau bod modd ymwneud â'r cwsmeriaid yn eu dewis iaith.

Mae'r arweinydd tîm a'r rheolwr yn 'Galw Gwynedd' yn cefnogi ac yn annog eu prentisiaid i wneud o leiaf peth o'r gwaith at eu cymhwyster yn Gymraeg gan fod hyn yn diwallu anghenion y staff a'r cwsmeriaid ac yn sicrhau bod gan y gweithlu sgiliau dwyieithog.

Effaith ar y Dysgwr

Mae pawb yn nhîm gwasanaethau cwsmeriaid 'Galw Gwynedd' yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf. Mae'n well gan rai prentisiaid wneud eu gwaith yn Gymraeg am mai dyna eu dewis iaith ond mae eraill yn elwa o gael cydbwysedd o ddarpariaeth Gymraeg a Saesneg. Maent i gyd yn gallu elwa ar wneud eu gwaith trwy Goleg Menai yn eu dewis iaith.

Astudiaeth Achos: Hyrwyddwr Dwyieithrwydd DSW



Dyw hi byth yn rhy hwyr i adennill eich sgiliau Cymraeg

Mae Hyrwyddwr Dwyieithrwydd Ffederasiwn Hyfforddiant Genedlaethol Cymru (NTfW), Ryan Evans, wedi profi nad yw hi byth yn rhy hwyr i adennill eich sgiliau Cymraeg.

Bu Ryan mewn ysgol gynradd Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin a mynd ymlaen i astudio Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgol uwchradd. Fe gafodd Ryan TGAU mewn Cymraeg fel Ail iaith flwyddyn yn gynnar yn 1999 gan ennill A*. Aeth ymlaen i gael gradd A yn ei arholiadau AS a Lefel A mewn Cymraeg Ail iaith gan ennill gwobr Tomos Davies Penffordd am Ragoriaeth Academaidd yn ei Lefel A Cymraeg Ail iaith.

Ar ôl gadael yr ysgol yn 2002, aeth Ryan i Brifysgol Cymru Aberystwyth i astudio Cyfrifeg a Chyllid gyda Ffrangeg. Ar ôl y cwrs pedair blynedd, cafodd Ryan waith fel Rheolwr Cyllid gyda darparwr hyfforddiant yn Noc Penfro. Roedd Ryan yn awyddus i gael gwaith oedd yn defnyddio'i holl sgiliau: Cyllid, Cymraeg a Ffrangeg ond, er ei fod yn gweithio yng Nghymru, anaml yr oedd angen iddo siarad unrhyw iaith heblaw Saesneg.

Yn 2011, gofynnwyd i Ryan fod yn Swyddog Datblygu'r iaith Gymraeg ar gyfer y cwmni hefyd. Dechreuodd fynd i gyfarfodydd gyda darparwyr dysgu seiliedig ar waith eraill yn yr ardal er mwyn trafod yr agenda ar gyfer y Gymraeg. Nid oedd yn hyderus yn ei sgiliau Cymraeg i ddechrau ond dechreuodd feithrin hyder yn raddol.

Cyn dod yn hollol hyderus yn yr iaith, penodwyd Ryan yn Hyrwyddwr Dwyieithrwydd NTfW ac yn awr mae gofyn iddo siarad mwy o Gymraeg nag erioed o'r blaen. Erbyn hyn, mae'n hyderus ac yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn broffesiynol ac yn gymdeithasol.

Mae hyn yn profi nad yw'n rhy hwyr, hyd yn oed ar ôl peidio â defnyddio'r iaith am bron 10 mlynedd.

“Peidiwch ag anobeithio am eich Cymraeg. Gwnewch gymaint o ddefnydd ag y gallwch ohoni. Po fwyaf o ddefnydd a wnewch ohoni, lleiaf tebygol y byddwch o'i cholli.”

Adnoddau

Gwefannau Defnyddiol:

Gwefan NTFW:	https://www.ntfw.org/wel
Tudalennau Hyrwyddwr Dwyieithrwydd DSW:	https://www.ntfw.org/wel/prosiectau/hyrwyddwr-dwyieithrwydd
Adran Aelodau NTFW	http://www.members.ntfw.org
Gwefan Llywodraeth Cymru	http://gov.wales/?skip=1&lang=cy
Pethau Bychain	http://gov.wales/topics/welshlanguage/promoting/pethau-bychain-do-the-little-things/?skip=1&lang=cy
Gwefan NEWYDD "Cymraeg"	http://www.llyw.cymru/cymraeg
Sgiliaith	http://sgiliaith.llandrillo.ac.uk/cy
Comisiynydd y Gymraeg	http://www.comisiynyddygybraeg.cymru/Cymraeg/Pages/Hafan.aspx
Hybu a Hwyluso	http://www.comisiynyddygybraeg.cymru/hybu/cy/hafan/Pages/hafan.aspx
Estyn	http://www.estyn.llyw.cymru
Cymraeg i Oedolion	http://cymraeg.gov.wales/learning/Adults/Welsh-for-Adults/?lang=cy
SaySomethinginWelsh	https://www.saysomethingin.com/welsh/course1
Dangosyddion Cymraeg yn y Gweithle	http://www.workplacewelsh.org.uk/cy-GB
Yr Eisteddfod Genedlaethol	http://www.eisteddfod.org.uk
Urdd Gobaith Cymru	http://www.urdd.cymru
Mentrau Iaith Cymru	http://www.mentrauiaith.cymru
Cam wrth Gam	http://www.meithrin.cymru/cam-wrth-gam-cy
Cyngor Gofal Cymru	http://www.cgymru.org.uk/aps/?force=2&bc=123:3856

Adnoddau Ar-lein:

Clic Clonc	http://www.telesgop.co.uk/clicclonc/index.html
Acen	http://www.acen.co.uk

Cyfyngau Cymdeithasol:

Facebook	https://www.facebook.com
Youtube	http://www.youtube.com
Twitter	https://twitter.com
Clecs	https://www.clecs.cymru

Cyfrifon yr awgrymir eich bod yn eu dilyn:

@NTFWwbl
@Bilingual_WBL
@DfESwales / @AdAScymru
@iaithfyw
@ApprenticeWales
@Sgiliaith
@WelshWordADay
#PethauBychain
#welshwednesday
#Bilingualism / #Dwyieithrwydd

Ffurflenni:

[Pennu Targedau ar gyfer yr Holl Ddysgwyr yn yr Iaith Gymraeg \(Coleg Sir Benfro\)](#)
[Holiadur i Gyflogwyr \(PeoplePlus \(A4e Cymru\)\)](#)

Termau:

[Termau Cymhwyso Rhif \(ACT Training\)](#)

[Geirfa Termau Trin Gwallt \(ISA Training\)](#)

[Poster Geirfa Inswleiddio Thermol \(Coleg Caerdydd a'r Fro\)](#)

[Cymraeg Llafar \(Babcock Training\)](#)

Llyfrynnau:

[Welsh for the Workplace/Cymraeg i'r Gweithle \(Academi Sgiliau Cymru\)](#)

[Hyfforddiant Ymwybyddiaeth i'r Staff \(Coleg Gŵyr Abertawe\)](#)

Cystadlaethau a Gêmau:

[Cwisiau a Gêmau \(Y Coleg Merthyr Tudful\)](#)

[Cystadlaethau Balch o fod yn Gymry \(ACT Training\)](#)

NTFW

Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Ocean Park House, East Tyndall Street, Caerdydd CF24 5ET
T: 029 2049 5861 - E: info@ntfw.org - www.ntfw.org

Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cofrestru: 04594179